YR YMOFYNYDD.

RHIF. 73.] IONAWR, 1865. [AIL GYFRES.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

AR HYD Y NOS.

CANOLBWYNT Y BYDYSSAWD.

Seryddwr.—Ar noson glir ddi-loer fel heno, nid oes dim golygfa mwy hyfryd yn yr holl nefoedd, na'r twr tewdws neu'r twrser. Mor debyg i *ddiadem* y maent yn ddisgleirio! Er eu bod yn cael eu gwneud i fyny yn hollol o smotynau serenog bychain, y rhai nis gallasai'r llygaid braidd eu canfod wrth wibio dros y ffurfafen pe buasent ar wahân; etto y maent mor amlwg fel ag i ddâl sylw yn union. A welwch chwi hwy, fan acew, i'r *north-west* i Orion.

Adroddwr.—Gwelaf; y Cwppan Bach fel y mae rhai yn eu galw.

S.—Nid yw yn annhebyg. Y mae'r Arabiaid yn bert iawn wedi enwi'r twr yn Rhai Bychain; ac yn yr un ysbryd y mae'r Almaenwyr yn eu galw yn Gluck-Henne, neu yr Iar-Ori; a'r Italiaid yn le Gallinelle. Ac y mae'r Spaniards wedi ysgrifenu ar yr wybren frawddeg o'u bywyd teuluaidd, yn cofnodi yn ddiammheu, wrthrych anwyl gan y bobl, trwy alw y twrser yn Nanny-Goat. Y mae Theon yn ei gymharu i sypyn o rawn-win. Y mae yn awr yn rhyw ddwy awr a hanner gwedi nawn-gylch ar fachludiad haul; ac yn fuan dechreua'r tymmor y mae Hesiod wedi enwogi:

> Amser sydd pan fyddant yn gorwedd am ddeugain niwrnod
> A deugain nos, oddi wrth bob llygad dyn yn guddiedig;
> Ond fel bo'r amser yn myn'd, a'r flwyddyn yn troi yn ei gylchdro
> Gyd â hogiad y bladur, hwy ddeuant etto i'r golwg.

Y mae'r ail-ymddangosiad yma yn awr yn cyfatteb i Alban Hefin, er, o herwydd yr hyn a elwir yn *procession of the equinoxes* yr oedd hyny yn bump wythnos yn gynarach pan ysgrifenodd y bardd. Y mae'r ffaith dyddorol felly yn cael ei ddwyn i'r amlwg, fod Medi yn dechreu yng ngwlad Groeg yn amser Hesiod, ryw saith wythnos ar ol Alban Eilir, yr hwn fyddai'n cyfatteb i'r wythfed o Fai yn ol y calendar presennol. Pa sawl seren allwch chi ganfod, Syr?

A.—Ni wela i ond chwech. Os 'wi'n cofio'n iawn yr oedd saith yn y twrser.

S.—Mae'n wir; yr oedd yr Atlantides yn saith chwaer, gwyryfon, plant Atlas; ond fe ddywedir fod un wedi myned i golli os ydych yn cofio. Yn llwch pethau symmudol, yr ydych fe ddichon wedi colli golwg ar lawer o'r chwedl-ofyddiaeth a ddysgasoch gynt yn yr ysgol ac yn y coleg—Maia, Electra, Taygeta, Asterope, Merope, Alcyone, a Celaeno. Yr oeddwn yn ofni fy mod wedi eu hanghofio.

A.—Yr ydych yn eu galw yn dafod-lithrig eich gwala. Y mae'n ammheus genyf a allaswn i alw enw yr un o honynt i gof.

S.—Ydwyf, y maent yn gorwedd yn fy meddwl yn awr mor amlwg a phe buaswn ond newydd eu dysgu. Yr wyf yn cael pleser mawr wrth alw i gof yr hyn a ddysgais yn fy ieuengetid, llawer mwy o bleser yn wir na phan y dysgais hwynt gyntaf.

A.—Beth yw ystyr y Pleiad Golledig? A oes un o'r twrser wedi diflanu, er pan y gwelwyd hwy gyntaf?

S.—Nag oes; meddylddrych barddonol hollol ydyw; y mae chwech seren yn berffaith amlwg; ond y mae'r seithfed yn weledig ar noswaith glir fel heno, trwy syllu'n daer. Rhowch orphwys i'ch llygaid yn y tywyllwch am ychydig funydau; nawr syllwch yn sefydlog ar un pwynt lle'r ydych yn meddwl nad oes dim ser yn ganfodadwy.

A.—Mi wela' un arall!—Mae wedi myned etto.

S.—Chwi a'i gwelwch etto yn y funyd yn dod dan grynu o'r tywyllwch.

A.—Gwir 'wedsoch chi!—dacw hi etto. A dacw hi etto wedi mynd. Dacw un arall ar bwys ychydig yn fwy gwanaidd yr olwg na'r llall, ac un arall etto! Ni freuddwydiais i erioed fod y twrser yn wrthrych mor hardd.

S.—Edrych arnynt hwy yn myned ac yn dyfod yn eu hardderchogrwydd disglaer, yw'r olygfa ardderchocaf wyf fi'n ganfod yn yr ehangder; ac etto ychydiced sydd yn sylwi arnynt!—meddwl eu bod wedi bod yn fflachio fel yr wyf fi yn eu gweled, am oesoedd aneirif: eu bod wedi llanw enaid bardd a phrophwyd a salmydd am oesoedd annhraethadwy; ac y byddant etto i barhau am oesoedd hirion, i fflachio a gwreichioni a thywynu, mor llachar, mor unol ag y maent yn awr, sydd yn fy lingcio mewn brawdoliaeth â phob cenedl a phob oes. Ond y mae dyddordeb dyfnach etto yn ymgyssylltu â'r trwp bychan yma, trwy ddarganfyddiadau diweddar Maedler, seryddwr enwog yn Russia. Dywed ef mai y Trwpser yw pentwr canolog *(central group)* holl gyfundrefn y ser sefydlog sydd yn cael eu cyfyngu gan *stratum* mawr y Llwybr Llaethog; ac mai Alcyone, y disgleiriaf o'r trwp ydyw'r seren sy debycaf o fod yn haul canolog.

A.—Haul canolog?

S.—Ië; canolbwynt yr holl fydyssawd hwn o sêr sefydlog sydd yn gwneud i fyny ein ffurfafen gweledig ni, yn yr hwn (fydyssawd) nid yw ein haul ni a'r bydoedd sydd yn troi o'i amgylch ond megys mân lwch y clorianau.

A.—Nid canolbwynt mudiad, fel ein haul ni, yr ydych yn feddwl ai ê?

S.—Ië; canolbwynt dysgyrchiad a mudiad; hyny yw, pwynt o amgylch i'r hwn y mae'r holl fydyssawd cylchdroadol wedi ei fantoli.

A.—Fath *speculation* aruthrol! 'Y ser yn treiglo mewn cylchoedd! Pa fodd y mae hyn yn bossibl, syr? Onid ydych wedi dywedyd wrthyf fod eu lleoedd ymddangosiadol yr un yn awr ag oeddynt filoedd o flynyddau yn ol?

S.—Ydwyf; y mae eu sefyllfaoedd mewn perthynas i'w gilydd bron bod yn gymmhwys felly; ond i Dduw y mae mil o flynyddau megys un dydd. A siarad yn gywir nid oes dim fath beth a gorphwysfa ddiamodol *(absolute*

rest) i'w chael yn natur. Cyfnewidiad ydyw y ffaith fawr sy'n cyfarfod â ni bob amser ac ym mhob man. Y mae'r *telescope* yn canfod yn ysgrifenedig ar hyd holl wyneb yr wybren, yr hyn y mae llygad y seryddwr heb gynnorthwy wedi ei ddysgu yma a thraw, ar ol yr ymofyniad mwyaf diflin a pharhaus, fod y ser yn cyfnewid. Nid yw lliw, maentioli a sefyllfa llawer o honynt ddim yr un ag y mae hen hanesion yn dywedyd wrthym oeddynt un waith; y mae rhai wedi dod, y mae rhai wedi mynd; y maent oll yn symmud. Gall miloedd o oesoedd fyned heibio, a chyffurfiad presennol y ser barhau yn sylweddol yr un. Ond y maent yn raddol yn ymwahanu, neu yn ymddynesu, ac y mae dydd yn dyfod pan na fydd un ser-gynnulliad *(constellation)* sydd yn awr yn disgleirio, yn ganfodadwy yn y nefoedd. Byddant wedi ymnewid yn raddol i ffurfiau newyddion, fe allai i rai mwy gogoneddus. Ser disglaer a ddiflanant, yn cael eu gadael ar ol trwy ymdaith ein haul ni, yng nghyd â'i osgordd ysplenydd o blanedau, ar ei hynt ar hyd y nefoedd; neu trwy eu bod hwy yn ei adael ef ar ol o herwydd eu cylch-daith byrach a'u mudiad buanach; tra y daw ser newyddion i gymmeryd lle y rhai ymadawedig, ac fe allai i ragori arnynt mewn disgleirdeb. Pa fodd y mae'r cyfnewidiad rhyfedd a mawreddog hwn i gael ei ddwyn oddiamgylch nid oes un dyn all ddywedyd yn bendant, er fod llwybr yr ymofyniad wedi ei agor yn dda, a bod seryddwyr yn myned rhag eu blaen yn wrol ac yn sicr.

A.—Beth, y mae'n ddigon i'n brawychu wrth feddwl am beth mor aruthrol fawr—mudiad miliynau o heuliau o amgylch un corph canolog!

S.—Mudiad cydgordiadol miliynau ar filiynau o heuliau, a phob un fe allai yn dwyn gosgordd o blanedau a lleuadau cydymdeithiol.

A.—A oes rhywbeth o hyn mewn gwirionedd wedi ei brofi?

S.—Oes; y mae un ffaith wedi ei osod tu hwnt i bob ammheuaeth, trwy dystiolaeth cyd-darawiadol llawer o seryddwyr enwog, ag ydynt wedi chwilio i mewn i'r pwnge yn anymddibynol; h. y., fod ein haul ni a'i blanedau yn teithio yn araf trwy'r cyfwng tuag at bwynt yng nghymmydogaeth Hercules. Cyfrifir ei fod yn teithio tu a 422,000 milldir y dydd; yr hyn nid yw ryw lawer yn rhagor na chwarter cyflymdra y ddaear yn ei chylch; ond y mae yn agos iawn i'r hyn ydyw cyflymdra Uranus. A chymmeryd hyn fel cyfartaledd *(average)* cylch-fudiad ein haul ni, y mae'n canlyn, fel tymmor ei gylchdro oddi amgylch Alcyone, 18,200,000 o flynyddau! Os mai dysgyrchiad yw gallu canolog sugndyniad, y mae'r cyflymdra yma, yn y fath bellder aruthrol, yn gofyn clamp *(mass)* canolog o'r fath faintioli ag i wneud y dyb o haul canolog yn beth hollol chwithig; ac y mae wedi ei brofi i foddlonrwydd, oddiwrth y ser dyblyg, fod dysgyrchiad yn gweithredu tu allan i'r gyfundrefn heulog. Modd bynag y mae gwrth-ddadleuon pwysig ereill i *speculation* beiddgar Mädler.

A.—Beth ydyw y profion o'r mudiad hwn?

S.—Os yw'r *theory* yn wir, disgwyliem yn gyntaf, i weled y ser sydd yn gorwedd yn y llinell union-syth i linell ein mudiad ni, a'r rhai y gellir yn bresennol gymmeryd yn ganiatäol eu bod yn sefydlog, yn symmud yn ymddangosiadol mewn cyfeiriad croes i'r hwn yr ydym ni yn symmud—y nesaf â'r mudiad ymddangosiadol mwyaf, y pellaf â'r lleiaf neu ddim. Y mae'r effaith yma yn beth a sylwir yn gyffredin arno gan ymdeithwyr gyda'r *railroad*. Wrth bassio heibio i allt o goed, y mae y rhai nesaf yn ysgubo heibio gyda chyflymdra mawr, tra y mae y rhai sydd ym mhellach yn aros yn hwy yn y golwg. Yn ail byddai'r ser yr y'm yn dynesu atynt yn ymddangos fel

yn agor ar wahan, a'r rhai a adawn ar ein hol, ymddangosent fel yn cau i fyny eu *ranks*. Y mae'r holl ymddangosiadau yma i'w canfod yn amlwg, ac y mae nifer mawr o fesuriadau gofalus iawn wedi cael eu gwneud gan wahanol seryddwyr enwog, yn dechreu gyda'r Herschell cyntaf, ac y maent yn cyttuno'n agos iawn â'u gilydd.

A.—A wyddys beth yw pellder Alcyone ?

S.—Cyfrifir ef yn 34,000,000 gwaith pellder yr haul; y mae mor belled fel y cymmerai'r goleuni, yr hwn sydd yn dyfod mewn wyth munyd o'r haul hyd yma, 537 o flynyddau i orphen ei daith oddi yno? Rhoddir canlyniad arall i'r ymofyniad hwn. Os gellir ymddibynu ar y gosodiadau *(data)*, y mae'n canlyn fel bras-amcan-gyfrif, fod swm yr holl *masses* o fewn i'r bellen ddisgrifiedig, oddi amgylch i Alcyone fel canolbwynt, â *radius* cyfartal i bellder yr haul o'r canolbwynt hwnw, yn 117,400,000 gwaith maintioli'r haul! Ond a gadael cors ansefydlog meddyliadaeth, a dyfod yn ol at sylfaen gadarn sylwiadaeth, y mae genym y casgliad ardderchog fod y gyfundrefn heulog yn myned rhag ei blaen at bwynt yn Hercules; ac oddiwrth gyfattebiaeth gallwn yn deg gasglu fod yr holl ser yn symmud hefyd.—*N. Y. Tribune.* R.

ATEBION I DDEUDDEG O OFYNIADAU DIFRIFOL

I'R RHAI SYDD YN CREDU MEWN DIAFLAID.

(Gwel Rhif. Tach., tud. 250.)

1. "**Os oes diafol personol yn bod, pwy a'i gwnaeth?**"

ATEB. **Duw.**

2. "**Os bod crëedig yw, rhaid mai Duw a'i crëodd**; ac onid yw yn rhaid fod ei fodolaeth a'i allu yn ymddibynu ar allu cynhahol y Creawdwr?"

ATEB. Rhaid.

3. "**Os na all weithredu ond yn unig trwy ganiatad, oni fyddai yn drugarog ac yn raslawn yn y Crëawdwr i dynu ymaith ei allu cynhahol a thrwy hyny i'w rwystro i arwain yn agos holl ddynolryw i ball distryw?**"

ATEB. **Ni all weithredu heb ganiatad, medd pob synwyr cyffredin. Ni allasai Cain ladd ei frawd, nac un llofrudd arall ladd ei gydgreadur hyd yn bresennol heb ganiatad Duw, gan mai ynddo ef yr ydym yn byw, symud a bod. Gallem feddwl mai trugarog a graslawn yn y Creawdwr fyddai tynu ymaith ei allu cynhahol pe nad ystyriem mai uwch yw ei ffyrdd ef na'n ffyrdd ni, a'i feddyliau ef na'n meddyliau ni, a bod ffolineb Duw yn ddoethach na dynion.**

4. "**Os oes diafol personol yn bodoli, oni raid ei fod yn hollbresennol, er mwyn temtio dynion yng ngwahanol barthau o'r ddaear ar yr un pryd?**"

ATEB. **Na raid; un pechadur a ddinystria lawer o ddaioni. Achosodd un Buonaparte farwolaeth anamserol miloedd o ddynion, a chredaf i'r diafol achosi mwy, mewn ystyr naturiol, gan ei fod yn benach, cyfrwysach, a galluocach.**

5. "**Os ydyw yn hollbresennol, onid yw yn rhaid ei fod yn anfeidrol, ac o ganlyniad yn ogyfuwch â Duw?**"

ATEB. **Ydyw; os yw'r morgrugyn gymaint â'r elephant, mor ddoeth a galluog, o ganlyniad y mae yn ogyfuwch â'r elephant.**

6. "**A ddichon dau fod anfeidrol fodoli yr un pryd mewn cyfwng anfeidrol?**"

ATEB. Gallant. Anfeidrol yw'r Tad, yw'r Mab, anfeidrol yw'r Yspryd Glân.

7. "**Yn gymaint ag nas gall rhagor nag un bod anfeidrol drigo mewn cyfwng anfeidrol, a phe byddai i Dduw greu (a chaniatau'r posibirwydd) bod anfeidrol, oni ddifodai efe ei hunan trwy hyny?**"

ATEB. **Na wnai. Mae llawer mab yn gydradd a' dad, ond nid yw hyny mewn un modd yn difodi'r tad.**

8. "Os yw rhan o'r hil ddynol yn blant y diafol, oni fyddai'r Creawdwr yn defnyddio uchfraint nad yw yn perthyn iddo, wrth gospi plant y diafol i bob trag'wyddoldeb?"

ATEB. Ni fyddai. Mae ganddo awdurdod i wneuthur fel y byddo da yn ei olwg â llu'r nefoedd ac â holl drigolion y ddaear. "Onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y pridd gist i wneuthur o'r un telpyn pridd un llestr i barch, ac arall i ammharch."

9. "Os yw yn rhaid i ddynion i gael y diafol i'w temtio i bechod, beth a'i temtiodd ef i bechod?"

ATEB. Nid oes raid. Os bu raid i ddyn neu ddiafol wneyd unrhyw weithred ddrwg, ni byddant yn gyfrifol am hyny. Nis gwn beth a demtiodd y diafol, ac nid wyf am wybod, ac wrth yr Iuddew sydd yn gofyn, dywedaf, "bydd dithau yr un mor dawel."

10. "Os pechodd y diafol cyn temtio Adda, ai pechod Adda oedd y pechod gwreiddiol?"

ATEB. Ië, ym mhlith yr hil ddynol wrth gwrs.

11. "Os y diafol ddygodd bechod i'r byd, onid oedd Paul yn cyfeiliorni wrth ddywedyd, "trwy un dyn y daeth pechod i'r byd?"—Rhuf. v. 12.

ATEB. Nac oedd. Pe deuai dyn â'r gwahanglwyf arno i wasanaethu i deulu iach a glân, digon priodol fyddai dweyd mai trwy yr un dyn hwnw y daeth y gwahanglwyf i'r teulu.

12. "Gan fod y diafol yn defnyddio ei holl bwerau i groesi dymuniadau Duw, pan fyddo Duw wedi rhoddi i fynu y drwg i ddwylaw ei fawrhydi Satanaidd, iddo ef eu rhostio yn y mor o dân berwedig am byth, a ydych yn tybied y gwna y diafol hyny?"

ATEB. Gwell genyf beidio ymddiried iddo. Ai tybied fod swyddogion y llywodraeth wladol yn fwy ffyddlawn i'w brenhin na swyddogion y llywodraeth foesol i Frenhin y Brenhinoedd. "Cytuna a'th wrthwynebwr ar frys," &c., (gwel Matthew v. 25, 26). Ble ceir modd i dalu, dywed? "Gan waredu ni wared neb ei frawd, ac nis gall roddi iawn drosto i Dduw. Mae'r iawn a roddwyd wedi ei esgeuluso a'i ddirmygu. Cofier "lle y syrthio'r pren, yno yr erys efe."

O Fro Clettwr. CLOCHYDD.

Y DDAU DDARLUN.

"Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni."—*Paul.*

MAE drygioni yn y byd. Yma ond odid y gadawn ef hefyd; er nad, gobeithio, heb geisio ei wneyd yn llai. Mae rhagor nag un ffordd i gyfrif am y modd y daeth i mewn i'n mysg. Yn ol y dyb gyffredin un o'r enw Adda a agorodd y drws iddo. Feallai taw. Os mai Adda oedd y dyn cyntaf, dechreuodd yn debyg gydag ef. Ond rheitach gwaith i ni na cheisio penderfynu'r pwnc o'i ddyfodiad i mewn yw cynllunio pa fodd i'w fwrw allan; neu o leiaf, ei ddarostwng i gylch mor gyfyngedig ag y bo alluadwy.

Mae rhywbeth yn rhesymol, dybygid, yn yr olwg a ganlyn. Wrth gymharu dyn â gwrthrychau eraill o amgylch iddo, megys glaswellt y maes, neu yr ych a bawr y glaswellt, ni a welwn wahaniaeth dirfawr. Mae dyn yn berchen ar ewyllys ddeallus. Mae yr ewyllys hon yn rhydd o fewn terfynau penodol; yn rhydd wrth gymharu ei deddfau â'r cyfryw a berthynant i'r llysiau a'r coedydd, neu â greddfau yn anifeiliaid mudion. Nid yw yn berffaith neu yn annherfynol rydd. Ni pherthyn y fath ryddid ond i'r Bod Goruchaf ei hun. Ond y mae hi yn rhydd mor bell a bod dyn yn atebol am ei weithredoedd. Yn awr, yn yr ymarferiad o'r rhyddid hwn, y mae dyn yn syrthio i lawer o gamsyniadau. I'r camsyniadau hyn mae eu canlyniadau naturiol, anocheladwy, y rhai ydynt yn sier o orddiwes y sawl a syrthio iddynt. Heblaw hyn, heblaw camsyniadau o natur y rhai a wna'r plentyn

wrth ddysgu cerdded, neu y bachgen yn yr ysgol wrth ymroi i gyrhaedd gwybodaeth, y mae dyn yn fynych yn gwneyd yr hyn a wyr sydd o le—yn "pechu yn erbyn goleuni." Mae y canlyniadau naturiol wrth reswm yn dilyn yma; ond yn ychwanegol at hyn, a llawer mwy poenus o'r cyfryw ymddygiad tardd gofid meddwl, cnofeydd cydwybod, y teimlad a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw euogrwydd.

Boed' hyna fel y bo, nid mewn drygioni o'r naill fath na'r llall y mae arosfa dyn i fod. Nid yw fel wedi ei raglunio i arwain bywyd o ddrygioni. Pe amgen, pa fodd y mae i ni gyfrif am effe thiau annymunol drygioni ar ddyn ac ar gymdeithas? Pe yn unol a threfn y byd ac nid peth eithriadol a thros amser, gallesid dysgwyl i ddrygioni helpu i chwyddo i fynu gysur a dedwyddwch yr holl greadigaeth. Ond nid felly. Cynyrchu annhrefn a thrueni a wna drygioni o bob rhyw. Nid oes dim yn ein dysgu i ymfoddloni a phlethu dwylaw mewn tawelwch yn yr olwg ar ddrygioni. "Gwrthwynebwch ddrwg" yw y siars a wesgir arnom mewn llawer ffordd, gan reswm a chan Ysgrythyr; gan ewyllys Duw ysgrifenedig ar bapur, a chan ewyllys Duw fel y mae i'w ddarllen yn ysgrifenedig ar lechau y galon ddynol. Fe'n dysgir i wrthwynebu drwg mewn eraill, ac yn neilldnol ynom ein hunain. "Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni." Yn y geiriau hyn y mae dau ddarlun yn cael eu dwyn o flaen y meddwl:

Dyn yn cael ei orchfygu gan ddrygioni, a

Dyn yn gorchfygu ddrygioni trwy ddaioni.

Gadawer i ni edrych yn gyntaf ar y darlun du. Mae dosparthiad o ddrygau, cyfleus ar lawer ystyr, yn cael ei wneyd yn gyffredin, a chyn hened a'r oes apostolaidd, sef i bechodau'r corff neu'r cnawd, megys, er engraifft, anlladrwydd; ac i bechodau'r meddwl neu'r yspryd, megys, er engraifft, cenfigen. Nid nad oes a fyno'r meddwl â phechodau'r corff ar un llaw; ac nid ar y llaw arall, nad yw'r corff yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng ac offeryn i bechodau'r meddwl. Camsyniad fyddai tybied fod y naill yn anghyfranog o halogrwydd y llall. Eto nid yw'r dosparthiad heb ei ddyben.

Gofynir weithiau pa ddosbarth o bechodau yw'r gwaethaf. Ond y mae gofyn y cwestiwn lawer yn hawddach na'i ateb. Mae cleſydau'r corff yn agored i gyffelyb ddosparthiad; y rhai a dorant allan nes gwneyd y corff o'r tu faes yn llawn gweliau crawnllyd, heb fan glân na chyfan; ynghyd â'r clefydau a weithiant yn dufewnol. Mae y naill fel brech yn tori allan gan ymledu dros yr holl gnawd, y llall fel y ddarfodedigaeth wenieithus. Pa un sydd oreu? Pwy all ateb? Yn y pen draw mae'r naill fel y llall yn dwyn y bywyd i ffwrdd. Gwneir y sylw hwn, am fod dynion yn rhy barod i dybied eu bod hwy yn lân am nad ydynt yn ddarostyngedig i'r un pechodau ag eraill. Ceir bobl y ddau ddosparth yn taflu'r saethau yn ol ac ym mlaen at eu gilydd, heb ystyried fod y naill fel y llall yn pechu ac yn ol am ogoniant Duw. Gadawer i ni yn awr ymofyn pa fodd y mae dyn yn cael ei orchfygu gan ddrygioni?

Nid ar unwaith. Gormod o naid fyddai hyn. Mewn ateb i'r ofyniad a roddwyd yn awr, nid ydym yn meddwl dweyd ein bod yn d'od i'r byd o dan garnau pechod, a nod y bwystfil yn ein talcenau, ysgrechfeydd uffern yn ein geneuau, a'r galon yn siglen afiach, llawn gweliau crawnllyd. Creded a'i credo. I'n meddwl ni nid yw hyn ond hen chwedl wrachiaidd. Eto tybiwn y rhaid i ni fyned ym mhell yn ol ac yn fynych yn gryn bell yn ol, er cael ateb boddhaol i'r cwestiwn, pa fodd y mae dyn yn cael ei orchfygu gan

ddrygioni? Nid mor bell ag Eden dichon, ond i bellder mawr—i flynyddoedd boreuaf bywyd. Bydd drygioni yn cael ei yfed i mewn gyda llaeth y fron weithiau; y llygad yn sylwi arno ac yn cynefino âg ef mewn rhyw ffurf neu gilydd o'r dechreu. Bydd nodau drygioni i'w darllen yn holl gymydogaeth y gader y siglir y plentyn ynddi. Pwy a all ddweyd pa mor fynych y mae hyn yn parotoi un i syrthio yn ysglyfaeth i arferion drwg? Mae y dyn er yn faban yn cael ei osod ar lithrigfa, fel mai y syndod fyddai, nid ei fod yn syrthio o dan draed y drwg, ond pe y diangai rhag hyn o anffawd. Gadawer fod yr effaith niweidiol yn dechreu mor foreu a hyn, eto graddol iawn yr ymleda. Graddol fel y dwfr yn treulio i mewn o dan y geulan, neu y canor yn araf ennill dros yr holl gorff nes cyrhaedd eisteddle'r bywyd. Cyn y gorchfygo drygioni ddyn rhaid iddo ddarostwng llawer rhag-amddiffynfa gref, a rhwygo muriau cedyrn. Fel trefydd yr hen oesau, y rhai a godid ar fanau uchel a manteisiol i hunan-ddiffyniad, y mae i'r natur ddynol fanteision naturiol enwog; adeilad ar uchelfa yw. Cryn fuddugoliaeth i ddrygioni ynte yw cael dyn o dan ei draed. Fe wrthneidia pobl ieuainc yn erbyn llawer o saldra corfforol, ac ymuniawnant yn ebrwydd; gwnant yn gyffelyb hefyd yn erbyn unrhyw drais a'n natur foesol, unrhyw ddylanwadau niweidiol i'r cymeriad. Hi gymer lawer i dryblu ffynonellau'r bywyd moesol yn yr ieuainc, fel ffynonellau'r bywyd corfforol. Ond anfantais arswydus yw cynefin-dra ag arferion drwg o'r gader i fyny.

Eto, gorchfygir dyn gan ddrygioni *am nad yw serchiadau gwir a rhinweddol yn cael chwarae teg i weithredu.* Nid yw'r meddwl yn cymdeithasu â'r gwirthrychau goreu. Nid oes archwaeth at y testunau mwyaf santaidd, nac at y dynion mwyaf rhinweddol. Adwaenir dyn wrth ei hoff bethau; os mai llygredig a chnawdol y bydd yr hoff bethau, mae ar ei ogwydd i gyflwr o ddarostyngiad i oferedd a drygioni. Mae gan serch a chymdeithas fwy i wneyd â dyn pan yn ieuanc na dim arall; mwy na sydd gan gynghorion neu bregethau na dim o'r fath. Peth mawr yw iddo adnabod gwirthrychau teilwng i'w serchiadau ymglymu am danynt. Mae cyfaill rhinweddol i ddyn ieuanc y fendith benaf ar wyneb y ddaear; gwell nac etifeddiaethau llydain, neu aur ac arian yn ddirifedi. Os caiff y serchiadau ar grwydr oddiwrth y lla ac yn ddieithr iddynt, dyna raff o'r cadarnaf wedi ei thori. Cyhyd ag y parhao un i garu â serch pur a nerthol unrhyw wrthrych rhinweddol, megys nam dduwiol neu dad tyner, brawd neu chwaer anwyl, neu gyfaill o'r iawn ddelw, nis gorchfygir ef gan ddrygioni.

Nid yw'r galluoedd a ddylent reoli gn cael rheoli. Mae'r llywodraeth yn cael ei adael i ddianc o'r dwylaw priodol. Mae yn perthyn i ddyn yr hyn a ddylai lywodraethu, a'r hyn a ddylai gael ei lywodraethu. Y rhan ddeallol a moesol o ddyn ddylai gael y llywodraeth, nid y rhan nwydog; y rheswm a'r gydwybod nid y nwydau a'r chwantau. Os esgeulusir arfer y rheswm ac ymddiried yr awenau i'w law; os bydd y gydwybod wedi ei llwgr-wobrwyo i'w marweiddio; os caiff chwant a blys esgyn i'r orsedd, yna mae'r dyn ar y ffordd i gael ei orchfygu gan ddrygioni. Da yn eu lle yw'r nwydau a'r chwantau; rhoddwyd hwy i ateb dybenion pwysig. Ond os rheoli a wnant, hi a ddygwydd fel y gwelir yn fynych pan y mae llwyn tew o iorwg, prydferth iawn yn ei le, yn mogi'r bywyd allan o'r pren y try yn ei gylch. Gweision da yw'r nwydau a'r chwantau, ond meistri drwg.

Yn raddol fel hyn â'r cymeriad ar wyrdro yn bechadurus a throfäus. Goddefir iddo gael ei nyddu o'i le. Arweinia un cam i'r llall. Ymwertha'r

dyn fwyfwy i'r drygioni hyn neu ddrygioni arall, cybydd-dod neu genfigen, anonestrwydd neu gelwydd, cyfeddach neu anlladrwydd. O ychydig i ychydig, daw'r dystryw mawr ar ei warthaf; rhoddir y *plunge* mawr, a dyna'r dyn o dan draed ei bechod, wedi ei orchfygu. Y serch pur unwaith wedi ei halogi, y rheswm wedi ei dywyllu, y gydwybod wedi ei dystewi am dro, yr archwaeth wedi ei llygru, y blys wedi ei fagu nes yw yn gawr nerthol. Dyma *ruin* moesol. Ac o bob *ruin*, dyn, creadur rhesymol yw'r un hyllaf, duaf, mwyaf torcalonus i edrych arno. Bydd y fath bosiblrwydd wedi ei ddinystrio, y fath addewidion wedi eu siomi, y fath burdeb wedi ei halogi, y fath fawredd wedi ei anrheithio fel mai priodol iaith y proffwyd: "Pa fodd y tywyllodd yr aur, y newidiodd yr aur coeth da!" O'r boreu teg a fu i lawer bywyd, ond y fath brydnawn tywyll a thruenus! Ië, sawl haul sy wedi machlud gyda haner dydd! Mae y dystawrwydd ym mha un y cleddir rhai enwau yn hyawdl. Nid y rhai a ddoniwyd â'r galluoedd naturiol cryfaf, yn fynych a geir yn arwain gydag ymdrechion rhinweddol. Dechreuasant redeg yn dda, ond pan ofyna rhyw gyfaill boreu, y syrthiodd ei goelbren ar ryw faes pell o'i artref am danynt ym mhen blynyddoedd, mudandod a dystawrwydd yw'r ateb hyawdlaf a mwyaf torcalonus. Pasiwn weithiau heibio i ryw hen furddyn golosgedig, anedd a fu yn deg a phrydferth unwaith ond yn awr heb ddim ond y muriau moelion ac huddyglud yn sefyll, yn weddillion a choffadwriaeth drist o'r hyn sy wedi bod. Mae'r meddwl yn dychymygu pa hapusrwydd a fu ar yr aelwyd yna unwaith, pa chwedlau difyr a adroddwyd, pa ymddiddanion serchog fu yn sirioli'r teulu ar hirnos gauaf o gylch y tân; y modd diniwed y siaradai ac y chwareuai plant bychain yna; y cynlluniau teilwng fuwyd yn dynu, y rhagolygiadau dedwydd y buwyd yn ymhyfrydu ynddynt. Dim ond anrhaith ac anghyfanedd-dra sydd yna yn awr yn teyrnasu. Ond nid yw'r anghyfanedd-dra hwn ond darlun egwan o'r hyn yw dyn wedi ei sarnu gan ei chwantau a'i wneyd yn gaethwas i bechod.

"Edrych yn y drych hwn dro
Gyr galon graig i wylo."

SUETONIUS.

(I'w orphen yn y nesaf.)

DYLANWAD MAM A NERTH GEIRIAU.

NID ydym erioed wedi dyfod ar draws enghraifft mwy tarawiadol o ddylanwad mam na'r un canlynol, yr hwn a roddwyd mewn araeth gyhoeddus gan Wendell Philips yn New York. Darllenwch ef famau, ac ennillwch addewid cyffelyb oddiwrth eich meibion! "Adroddwyd stori wrthyf heddyw mewn perthynas i hyn, yr hon sy mor darawiadol fel y mae yn rhaid i chwi ganiatau i mi ei hadrodd. Enghraifft o gymmedroldeb ydyw, ond gall egluro hyn yr un cystal. Stori am fam ydyw, ar fryniau gwyrdd Vermont, yn dal gerfydd ei law ddê, ei mab, un-ar-bymtheg oed, yr hwn oedd wedi ynfydu gan gariad at y môr. Ac fel yr oedd hi yn sefyll wrth glwyd yr ardd un boreu tesog, hi a ddywedodd: "Edward, y maent yn dywedyd wrthyf fi (oblegid ni welais i y môr erioed) mai temtasiwn mawr bywyd y morwr yw'r peth yfed. Gwnewch adduned i mi yn awr, cyn gollwng llaw eich mam, i beidio cymmeryd dim o'r peth yfed yna. Ac, meddai efe, (oherwydd efe ei hunan oedd yn adrodd y stori wrthyf) gwnaethum yr adduned, ac aethum oddiamgylch i'r bellen faith yma—Calcutta, y Mediterranean, San Francisco,

y Cape of Good Hope, y North Pole a'r South—Gwelais hwynt i gyd ddeugain mlynedd, ac ni welais i erioed o'r gwydr yn llawn o'r gwirod disglaer, nad oedd ffurf fy mam gerllaw clwyd yr ardd, ar lethri gwyrddion Vermont, yn cyfodi o flaen fy llygaid; ac heddyw yn driugain oed y mae'r gwefusau yma heb wybod beth ydyw archwaeth un math o wirod meddwol. Onid yw hwna yn brawf cadarn o nerth un gair? Etto nid yw hyna yr hanner. Oblegid, meddai efe, daeth dyn i'r *counting-room* ataf fi ddoe, yr hwn oedd tua deugain oed, a gofynodd i mi, a oeddwn yn ei adwaen. Attebais, nad oeddwn. 'Wel,' meddai, 'Dygwyd fi unwaith i'ch presennoldeb ar fwrdd llong, yn feddw. *Passenger* oeddych chwi, ciciodd y cadben fi o'r neilldu. Cymmerasoch chwithau fi i'ch ystafell a chadwasoch fi yno nes oeddwn wedi cysgu fy meddwdod ymaith; gofynasoch i mi wedi'n os oedd mam genyf; attebais nad oeddwn yn gwybod un gair o'i gwefusau; dywedasoch wrthyf am eich mam chwi wrth glwyd yr ardd; ac heddyw yr wyf fi yn feistr ar un o'r *packets* glanaf yn New York, ac yr wyf yn dod atoch i geisio genych alw i ymweled â mi.' Pa mor bell y mae y ganwyll fechan hono yn taflu ei phelydrau! Gair y fam hono, ar lethri gwyrddion Vermont! O, diolch, diolch i Dduw am nerth hollalluog un gair."

Cyf. PETER B.

TRAETHAWD AR BRYDLONDEB,

*Gan E. Foulkes (J. G. Peris), Carlleon, a farnwyd yn ail oreu yn Eisteddfod Llandudno, Awst,** 1864.

"Y MAE amser i bob peth, ac amser i bob amcan dan y nefoedd," a gwneuthur pob peth yn iawn, a'i wneuthur yn ei amser yw swm dyledswydd dyn, ac amcan ei fodolaeth; ac yn wir nis gellir gwneuthur dim yn iawn heb ei wneuthur yn ei amser, ond gellir gwneuthur peth yn ei amser heb ei wneuthur yn iawn.

Tuag at iawn dreulio amser dylid ei ddosbarthu yn fân raniadau, a phenodi rhyw waith ar gyfer pob rhaniad, a phenderfynu cyflawni'r gwaith hwnw yn ei amser. Nid yw prydlondeb nemawr o wasanaeth i neb ond i'r dyn hwnw ag sydd yn ddeddf iddo ei hunan. Mae'n wir fod "amser i bob peth." Mae holl natur yn gweithredu trwy ddeddfau sefydlog ac anghyfnewidiol, ond mae mor wir a hyny fod amser cyflawniad pob peth a berthyn i ni i'w gyflawni wedi ei adael i'n cydwybod a'n synwyr ni ein hunain, a'n dyledswydd ninau ydyw trefnu *(arrange)* ein holl ddyledswyddau yn y fath fodd ag na byddo dim amser yn cael ei golli, a bod yn ofalus na byddo yr un ddyledswydd yn cael ei hesgeuluso. Gellir esgeuluso dyledswydd trwy roddi gormod o amser at ddyledswydd arall yn gystal a thrwy wastraffu amser, ac ni ellir osgoi y ddau ddrwg yma ond trwy drefn a phrydlondeb. Mae'r ddau beth hyn bob amser yn canlyn eu gilydd. Mae'n rhaid cael trefn onide ni chaiff prydlondeb le i weithredu. Mae'n rhaid cael prydlondeb onide aiff y drefn neu'r cynllun yn ofer.

Mae rhai dynion nad ydynt yn gwybod mwy, na chymaint yn brofiadol, am brydlondeb ag anifeiliaid y maes, ac ehediaid yr awyr. Mae y morgrugyn yn cywilyddio llawer dyn. Ni phallodd efe erioed a chasglu ei ymborth yr

* Beirniaid:—Y Parch. W. Roberts, Blaenau; a Mr. T. Stephens, Merthyr Tydfil.

hâf erbyn y gauaf, ond gwelsom gnwd llawer amaethwr cyn hyn yn pydru ar y maes ar wyliau Nadolig, a hyny nid am na bu tywydd cyfaddas i'w ddwyn i ddyogelwch, ond o ddiffyg prydlondeb. Nid oes gan lawer o ddynion reol na threfn i weithredu wrthi. Nid ydynt yn teimlo eu hunain dan ddylanwad yr un ddeddf ond deddfau natur (pa rai a droseddant yn aml) hwy a wnant rywbeth, rywbryd a rhywfodd. Gwe'thredant yn hollol afreolaidd mewn bwyta, cysgu, gweithio, ymddiddan, darllen, &c. Mae eu holl gyflawniadau yn gymysgedd o bob annrhefn ac afreoleidd-dra,—pob peth blith draphlith draws eu gilydd.

Mae'n syndod gresynol fod dynion mor ddireol ac ammhrydlon gyda'u dyledswyddau, tra mae eu tynged, eu llwyddiant, a'u happusrwydd; personol a theuluaidd, amserol a thragwyddol yn dibynu ar hyny. Mae rhai dynion fel pe wedi eu geni haner awr ar ol eu hamser, maent yn rhy hwyr i bob man a chyda phob peth. Nid ydynt byth yn anfon eu llythyrau i'r *post* mewn pryd, na byth yn myned i'r *station* cyn i'r *train* gyda pha un y bwriadasant fyned, gychwyn; mae'n amheus a gyraedda y rhai hyn y nefoedd mewn pryd ai peidio. Nid ydynt byth yn yr addoliad ar ddechreu'r gwasanaeth, pan fydd yr awrlais yn taro deg, dau neu chwech y Sabbath; clywir hwy yn dweyd, "y mae yn amser cychwyn." Nid amser cychwyn ydyw yr amser hwnw ond amser bod yn yr addoliad. Pan fydd y gwasanaeth wedi dechreu, a'r holl gynulleidfa yn gwrando mewn astudrwydd, deuant hwythau i mewn, gan wneuthur mwy o drwst ond odid na neb a aeth yno o'u blaen o gwbl, ac efallai y bydd eu heist ddleoedd wedi eu cymeryd erbyn yr ânt yno gan ryw rai a gredent na byddai i'w perchenogwyr fod mor ddigywilydd a dyfod yno i'w meddianu ar adeg mor anamserol, erbyn hyn bydd yn hwyr iddynt gychwyn tua'r pen eithafol arall i'r addoldŷ i ymofyn lle—fel hyn aflonyddir ar yr holl gynulliad o'u bachos hwy: a bu y cynwrf a achoswyd ganddynt yn foddion i gadw rhyw air rhag cyrhaedd clustiau un o'r gwrandawyr, yr hwn, pe cawsai chwareu têg a fuasai yn gafael yn ei feddwl, ac yn effeithio iachawdwriaeth dragwyddol i'w enaid.

Os cyfarfyddwch a'r dyn on hyn ar yr heol ni bydd ganddynt amser i siarad â chwi, oblegid rhaid iddynt fod yn y fan a'r fan erbyn yr amser a'r amser i gyflawni neu i sylweddoli rhyw appwyntiad o'u heiddo, ac erbyn iddynt gyrhaedd yno byddant yn rhy ddiweddar; maent bob amser ar ol eu hamser, ac i'r graddau ag y maent ar ol eu hamser, maent ar ol llwyddiant. Os gorfodir chwi i wneud rhyw appwyntiad a hwy, rhaid i chwi ofalu am ei ddyddio oddeutu hanner awr yn mhellach yn mlaen na'r amser gwirioneddol, ac er i chwi wneud hyny odid fawr na chewch eich siomi. Y mae y fath ddynion yn faich ar gymdeithas, ac yn gâs gan y rhai y bydd rhyw ymdrafodaeth rhyngddynt a hwy, ac eto mae llawer o'r fath i'w cael.

Dyn yw yr unig esiampl o ammhrydlondeb; mae yn eithriad trwy holl greadigaeth Duw, a diamheu ei fod fel pob drwg arall yn tarddu oddiar bechod, yr hwn sydd wedi effeithio cyfnewidiad trwyadl ar y natur ddynol, a gyru holl olwynion y peiriant allan o'u lle, ond nid ydym i gymmeryd ammhrydlondeb yn brawf o annuwioldeb, na phrydlondeb yn brawf o dduwioldeb; ond mae duwioldeb yn gymorth i fod yn brydlon, fel i bob rhinwedd arall, ac y mae ammhrydlondeb mewn llawer o gyssylltiadau yn ymddangos yn fwy gwrthun o lawer yn ei gyssylltiad a'r dyn duwiol nag ydyw yn ei gyssylltiad a'r dyn annuwiol neu anghrefyddol.

Mae y Beibl yn dysgu i ni brydlondeb, "Na adewch hyd y fory yr hyn a

ellir ei wneuthur heddyw." "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn" yr hyn na ellir ei wneuthur ond trwy brydlondeb. Hefyd, y mae natur yn ei ddadblygu yn feunyddiol o flaen ein llygaid. "Rhydd y ddaear ei chynyrch, a choed y maes a rydd eu ffrwyth yn eu pryd." Mae yn egino ac yn ffrwytho, ac yn dwyn cyflawnder o lysiau o bob rhywogaeth, a hyny mor reolaidd a phrydlon a phe buasai yn gweithredu o dan ddylanwad rheswm. Mae tymhorau y flwyddyn yn dyfod yn rheolaidd, y naill ar ol y llall, a phob un yn ei le. Y mae oerni a gwres, gwynt a gwlaw yn dyfod yn eu hamser. Y mae Duw yn "rhoddi y gwlaw cynar a diweddar yn ei amser, efe a geidw i ni ddefodol wythnosau'r cynhauaf." Mae y mor mawr llydan trwy ddeddfau anghyfnewidiol llanw a thrai ar y traeth yn pregethu prydlondeb trwy'r oesau. Y mae yr holl blanedau yn yr eangder, a'r haul a'r lloer "yn rhedeg hyd eu rhodau" heb golli un eiliad o amser yn ystod miliwn o flynyddoedd, ac mae nos a dydd mewn canlyniad o hyd yn cadw eu lle heb symud dim er pan y diferodd y gair "Bydded" dros wefusau Jehofah. Yn wir, y mae prydlondeb yn argraffedig ar holl weithredoedd Duw erioed, a dyma mae yn ddweyd am yr hyn a gyflawna yn y dyfodol, "Mi a brysuraf hyny yn ei amser." Mae Duw yn gwneyd pob peth mewn pryd mewn rhagluniaeth a gras yn gystal ag mewn natur. Y mae yn rhoddi i bob creadur, y rhai ydynt filwnau mewn rhifedi, "eu bwyd yn ei bryd." Fe fu Iesu Grist farw "mewn pryd dros yr annuwiol," ac oni buasai iddo wneuthur hyny a rhoddi i ddyn amser i edifarhau, buasai (dyn) wedi ei gau i fyny mewn anobaith tragwyddol.

Yn awr o hyn i'r diwedd ni a wnawn ychydig sylwadau mwy uniongyrchol i geisio dangos gwerth prydlondeb, a'r drwg o ammhrydlondeb.

1. *Mae ammhrydlondeb yn wastraff ar amser.*—Amser yw y rhodd benaf a roddodd Duw i ddyn. Mae ei dynged am dragwyddoldeb yn dibynu ar amser. Mae amser yn cynwys pob rhodd arall. Mae hen ddiareb gan y Saeson yn dweyd, "*Time is money*:" h.y., "mae amser yn arian," ond mae yn llawer iawn mwy os iawn dreulir ef. Mae yn hunan-ddiwylliad, yn gynydd mewn cymeriad, ac yn iachawdwriaeth dragwyddol. Un awr a wastreffir yn ddyddiol pe defnyddiasid hi i ddiwyllio'r meddwl a wnaethai ddyn anwybodus yn ddyn doeth cyn pen ychydig flynyddoedd. Dylem "brynu yr amser" yn hytrach na'i wastraffu.

Os amser yw y rhodd benaf, o ganlyniad gwastraff ar amser yw y gwastraff gwaethaf. Nid oes genym hawl i wastraffu dim, ond yr ydym wrth wastraffu amser yn gwastraffu pob peth.

Dylem gofio hefyd, os nad oes genym hawl i wastraffu ein hamser ein hunain, llawer llai y mae genym i wastraffu eiddo rhai eraill. Mae y dyn sydd yn cadw deuddeg o ddynion i ddisgwyl wrtho ef am bum mynud yn gwastraffu awr. Yr oedd unwaith bwyllgor o foneddigesau, yn cael ei gyfansoddi o wyth, wedi penderfynu cyfarfod am ddeuddeg o'r gloch. Daeth saith o honynt yno mewn pryd, ond yr wythfed a ddaeth gan wneuthur llawer o esgusion am fod cwarter awr ar ol yr amser. "Yr oedd yr amser wedi treulio yn ddiarwybod iddi; nid oedd yn meddwl ei bod mor hwyr, &c." Boneddiges arall (Quaker) ag oedd yn bresenol, a ddywedodd: "Gyfeilles, nid yw yn yrddangos yn deg i'm golwg i, gymeryd o honom dy esgusion. Y mae yn achos o dristwch ddarfod i ti wastraffu dy gwarter awr dy hun; ond wele yma saith o foneddigesau eraill wedi i ti dreulio eu hamser, yr hyn sydd yn cynnwys i gyd ddwy awr o amser: ac nid oedd ond saith rhan o

wyth o hono yn eiddo i ti." Mae dynion wrth fod yn amhrydlon yn gwastraffu oriau, ïe, blynyddau mewn oes o amser eu cyd-ddynion, a hyny heb feddwl dim mwy yn ei gylch na phe buasent yn poeri.

Mae drychfeddwl hynod wedi ymweithio i benglogau rhai, ac hyd yn nod rhai dynion cyhoeddus, sef y bydd yn llawer iawn gwell gan y rhai fydd wedi bod yn disgwyl wrthynt eu gweled, ac o ganlyniad rhaid iddynt fod bob amser ar ol eu hamser, a chadw y pleidiau y byddant yn myned i gyfarfod â hwynt mewn disgwyliad, er mwyn cael derbyniad mwy croesawgar ganddynt, ond camgymeriad mawr ydyw hyn. Wrth bob rheswm, y mae derbyniad unrhyw berson, mewn unrhyw gymdeithas yn llawer mwy cynhesol a chroesawgar pan y daw yno yn ei amser. Nid oes dim yn tueddu yn fwy i fychanu y naill ddyn yn meddwl y llall a pheri bod pob ymddiried yn colli ynddo, na'i weled yn llai na'i air. "Beth dâl dyn ond ei air." Dylai pob pregethwr fod bob amser yn y pwlpud erbyn yr amser, a thrwy hyny fod yn esiampl i'r holl gynulleidfa i'w ddilyn, ac yn wir y mae y rhai hyny ag sydd yn werth eu gwrando yn gofalu am fod felly. Mae prydlondeb bob amser ynglŷn â gwir fawredd, ac nid yn unig hyny ond yn rhan fawr o hono.

Hefyd, dylem ofalu nid yn unig am fod yn mhob man ag y bydd galw am danom bob amser mewn pryd, ond hefyd dylem ofalu am beidio bod yno yn rhy fuan. Gallwn wastraffu amser a cholledu ein hunain ac eraill wrth fod yn rhy fuan yn gystal ag wrth fod yn rhy hwyr, a thybiwyf fod y gair Prydlawn neu llawn-pryd yn cau allan neu yn gwahardd y ddau. Dylem wneuthur pob peth a bod yn mhob man mewn pryd, ond dylai fod yn *llawn pryd*. Gallwn ddweyd i ni wneyd peth mewn pryd, er i ni ei wneuthur efallai awr yn rhy fuan, ac y mae rhai dynion (ond y maent yn eithriadau) yn rhy fuan gyda phob peth bron. Byddant yn yr addoliad bob amser oddeutu hanner awr cyn i'r gwasanaeth ddechreu, ac ant allan drachefn hanner awr cyn iddo ddiweddu; ond nid oddiar gariad at brydlondeb y maent felly, (oblegid y mae hyn yn anmhrydlondeb o'r mwyaf) ond yr achos ydyw segurdod a diogi y meddwl. Gan hyny dylem fod bob amser mewn pryd, heb fod ddim rhy hwyr na dim rhy fuan. Pan wnai yr enwog Melancthon appwyntiad disgwyliai i'r munud yn gystal a'r awr gael ei benodi fel na byddai i ddim amser gael ei dreulio mewn ofer ddisgwyliad, a byddai yn y fan ac ar yr amser appwyntiedig i'r funud; yr oedd ef felly yn wr prydlawn yn ngwir ystyr y gair.

2. *Mae pob peth yn haws ei wneud ond ei wneud yn brydlon* —"Pe fwyaf fydd y brys mwyaf fydd y rhwystr" medd yr hen ddiareb, ac y mae hyny yn ddigon gwir. Y mae y dyn sydd yn gadael pob peth erbyn y funud olaf yn rhwym o fod yn frysiog ac annhrefnus, ac y mae annhrefn yn ychwanegu annhrefn; gwelsom enghreifftiau o hyn lawer gwaith. Dyna Dewydd Huws y tŷ nesaf; yr oedd arno eisiau codi un diwrnod yn bur foreu i fyned i daith bell, ond o ddiofalwch fe gysgodd Dafydd hanner awr yn mwy na'r dylasai, a dyna lle'r oedd mewn brys a thraflerth mawr, ac mewn tymor ddigofus yn ceisio "prynu yr amser" a gollodd; ond yn ei fyw ni allasai yr oedd pob peth yn troi o chwith ac fel pe yn penderfynu ei attal i'w daith. Wrth geisio gwisgo am dano rhwygai ei hosanau, a'i rhyw linynau o amgylch ei wddf neu ryw le yn gyflymau, collai rhyw fotwm ei afael, torai careiau ei esgidiau,—ac wrth fwytta ei *frecwest*, naill ai fe losgodd ei dafod yn enbydus, neu ynte fe gollodd yr bylif poeth am ei ben nes ysgaldio ei gnawd ac

andwyo ei ddillad goreu, ac erbyn i Dafydd druan ddod ato ei hun yr oedd bron hanner y diwrnod wedi myned heibio. Fel hyn y mae llawer o ddynion yn treulio eu hoes—bob amser ar ol eu hamser—bob amser ar frys, a phob amser yn gwneuthur pob peth yn *wrong*. Ond y mae prydlondeb yn rhoddi tawelwch meddwl i ddyn, yr hyn sydd yn anhebgorol angenrheidiol iddo ei gael tuag at fyned trwy ei holl ddyledswyddau yn bwyllog a threfnus. O, mor werthfawr i ddyn yw prydlondeb, mae yn gymorth iddo fyw ac yn gymorth iddo farw. "Ni frysia'r hwn a gredo." Bydd y duwiol yn gallu meddianu ei hunan mewn tangnefedd heddychol yn mwlch cyfyng marwolaeth, ond fe fydd yr annuwiol yn ymwylltio ac yn gwallgofi.

Heblaw fod pob peth yn llawer iawn haws eu gwneyd yn brydlon, mae rhai pethau nas gellir eu gwneud ond yn brydlon. Rhaid taro yr haiarn pan fyddo'n boeth, a rhaid trin y ewyr pan fo'n doddedig. Rhaid i'r llongwr hwylio e lestr o'r porthladd tua'r hafan ddymunol pan mae'r gwynt o'i du.

3. *Mae pob peth yn well o'i wneud os gwneir ef yn brydlon.*—Mae "gair mewn pryd" yn fwy o werth na mil allan o bryd. Mae "gair mewn pryd" wedi bod yn foddion i gysuro llawer meddwl pan oedd ar fin roddi i anobaith, ac wedi bod yn foddion i ragflaenu dinystr llawer un pan oedd ar fin colledigaeth. "Goreu cam, cam cyntaf," medd yr hen ddiareb.

(I'w orphen yn y nesaf.)

CYNNYG AT ATTEB GOFYNIADAU CYNROS

Yn Ymofynydd Mawrth, 1864.

"Yr hwn a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni."—*Rhuf.* iv. 25.

1. *Pwy a feddylir wrth* "yr hwn?"]—Yr "Iesu ein Harglwydd" yn yr adnod o'r blaen.

2. *Beth a feddylir wrth yr ymadrodd*, "A draddodwyd dros ein pechodau ni?"]—Ystyr traddodi yw rhoddi i fyny, yn Saesneg *give up, deliver up.* Cafodd Franz Müller ei draddodi, ei roddi i fyny i gael ei grogi. Cafodd ein Harglwydd Iesu Grist ei draddodi i'r Rhufeiniaid gan ei gydwladwyr i'r diben i'w osod i farwolaeth; dioddefodd farwolaeth, ie, *drosom* ni, *dros ein pechodau* ni, ond nid *yn ein lle* ni. Bu farw fel y byddem ni byw. Ni fu efe farw fel na bo achos i ni farw ein hunain mwy. Pechod oedd achos ei farwolaeth, o achos pechod y bu farw, pechod a'i arweiniodd at y groes. Bu farw *o achos* pechod yr luddewon, ac *yn achos* pechod pawb; nid fel y gwahanai rhwng pechod a'i ganlyniadau—rhwng achos a'i effaith, ond fel y dilëai'r pechod trwy ddileu achos y pechod; nid i ddofi llid Duw, ond i ddofi chwerwder calon dyn a'i buro i gyffelybiaeth purdeb ei galon ei hun: nid i gyfnewid [illegible] a bwriadau y nef, ond i gyfnewid calon ac ewyllys dyn. Bu farw [illegible] wrth fyw *er ein lles.* Bu farw fel y bu fyw, er ein glanhau; nid i'n rhyddhau oddiwrth ofynion cyfiawnder, ond i'n rhyddhau oddiwrth anwiredd, ac i'n dysgu i wneud yr hyn sydd dda. Heb ei farw ef nis gallai gael ei adgyfodi, ac heb ei adgyfodi ef ni byddai genym ni y sicrwydd sydd genym yn awr am adgyfodiad ac am fywyd wedi'r bedd.

3. *Pwy a gyfodwyd?*]—"Yr hwn" a draddodwyd.

4. *Pwy a'i cyfododd?*]—A'i tybied mae Cynros mai 'r un a gyfodwyd ac

a'i cyfododd? Iesu a gyfodwyd, Duw a'i cyfododd. Yr Iesu a fu farw, nis gallasai Duw farw; Duw a'i cyfododd, nis gallasai'r Iesu gyfodi ei hun.

5. *Beth yw cyfiawnhau?*]—Cyfiawnhau yw gwneud yn gyfiawn.

6. *Beth a feddylir wrth gyfiawnhau yn yr adnod hon?*]—Gwneud yn gyfiawn. Yr un oedd diben bywyd, marwolaeth, ac adgyfodiad Crist, i'n cyfiawnhau ni. Yn raddol y mae cyfiawnhad yn cymmeryd lle, tyfiant ydyw. Y mae dyn yn tyfu yn raddol mewn daioni a rhinwedd, ac i'r graddau y byddo yn gwneud hyny, yn ymddduwioli, yn ymgyfiawnhau Nid *cyfrifiad* o ryw beth allanol yw cyfiawnhad, ond tyfiant personol ydyw, tyfiant yng ngoleuni a gwres Haul y Cyfiawnder—yn addysgiadau, bywyd, marwolaeth ac adgyfodiad Prophwyd Mawr y Prophwydi! N. Y. Cros.

Y TU FEWN A'R TU FAES.

Yr oedd yr holl goed afalau yn blodeuo yn y perllanau, yr oedd yr holl hwyaid a'r cywion yn chwareu ar y clos, ac hyd yn oed y gath yn ymlawenhau yn llewyrch yr haul; a phed edrychech i'r maesydd, yno'r oedd y llafuriau yn ddi-ofn ym mhrydferthwch eu gwyrddlesni, a'r holl adar bach yn trylio ac yn telori fel pe byddai yn rhyw ddydd gwledd fawr; ac felly yr oedd, o blegid dydd Sul ydoedd.

Yr oedd y clychau yn canu a'r bobl yn myned yn eu dillad goreu i'r eglwys, ac yn edrych bawb o honynt mor ddedwydd ag y gallent fod. Ië, yr oeddynt oll yn llawen. Yr oedd y dydd mor wresog ac mor ogoneddus fel y gellid dywedyd, "Y mae ein Tad o'r nefoedd yn dda iawn i bawb o'i blant."

Ond yn yr eglwys yr oedd y pregethwr yn siarad yn uchel ac yn wgus; yr oedd yn adrodd mor llygredig oedd dyn; y modd y byddai Duw yn ei gospi, ffordd y byddai'n rhaid iddo i fyned i lawr i uffern, a llosgi yno byth bythoedd; na fyddai i'w pryf hwynt farw, na'u tân ddiffodd; na fyddai un gorphwysfa na heddwch iddynt byth.

Dychrynllyd ydoedd i wrandaw, ac yr oedd yn llefaru mewn perffaith sicrwydd; yr oedd yn disgrifio uffern iddynt, yn dywedyd wrthynt fod budreddi yr holl fydyssawd yn dylifo iddo, nad oedd un ddihangfa rhag fflam ei sulphur, yr hwn oedd yn llosgi yn dragwyddol, ei fod yn ddi-waelod, a bod y pechadur yn suddo i nos dragwyddol. Yr oedd y disgrifiad yn ddychrynllyd ddigon, ac yr oedd y pregethwr yn ei roddi mewn perffaith hyder, tra'r oedd yr holl fobl yn yr eglwys mewn dychryn ac arswyd mawr.

Ond y tu allan, yr oedd yr holl adar bach yn canu yn llawen, yr oedd yr haul yn disgleirio'n wresog, ac yr oedd pob blodeuyn bach fel pe byddai yn dywedyd, "Y mae Duw yn dda iawn i bawb o honom." Yn y tu allan i'r eglwys nid oedd yn ymddangos un tipyn yn debyg i'r hyn oedd y pregethwr yn adrodd. H. C. A.

Y mae'r celwyddog yn ddarostyngedig i ddau anffawd; i beidio credu, a pheidio cael ei gredu.

Paid gohirio elusennau hyd farwolaeth; y mae'r hwn sydd yn gwneuthur felly yn hael ar eiddo arall yn fwy nag ar yr eiddo ei hun. Bacon.

Y mae yn anhawdd gennyf gredu fod y dyn hwnw yn ei iawn synwyrau, yr hwn sydd yn ymddifad o grefydd. Cicero.

SUSAN A SARAH.

CYFLWYNEDIG I'R PLANT.

Yn un o'r ysgolion ag oeddwn i yn arfer talu ymweliad ychydig flynyddau yn ol, yr oedd dwy ferch fach, o'r enw Susan a Sarah. Yr oedd Susan yn y cyffredin yn ferch fach fwyn a serchog, ac yn un o'r rhai bach goreu yn yr ysgol. Yn anfynych yr oedd mewn natur ddrwg pan byddai rhyw un arall yn gwneud cam a hi, ac yn anfynych yr elai at yr athraw i gael cynmhwyso'r cam a wnaed. Yr oedd yn *favourite* cyffredin yn yr ysgol gyda'r athraw a'r ysgolheigion. Yr oedd gan Sarah feddwl cryf, dysgai'n gyflym, ac yn yr adroddiadau ymddangosai cystal braidd a neb yn yr ysgol; ac ar brydiau dangosai lawer o foneddigeiddrwydd a thynerwch yn ei hymddygiad. Ond yn y cyffredin dangosai dymmer galed, ddideimlad, maleisus, yn ei hymdrafodaeth a'r ysgolheigion, yr oedd yn anfaddeugar a dialgar. Nid oedd ganddi neb gartre i roddi un addysg iddi.

Yr oedd yr athraw yn teimlo tosturi mawr dros Sarah a dyddordeb ynddi, yr oedd yn dymuno gwneud cymmaint a allai i'w llesoli. Gosododd Susan a hithau i eistedd yn nesaf at ei gilydd, gan obeithio y gwnae cyfeillach a Susan help iddi. Ond yr oedd yn fynych deimlad o oerfelgarwch rhwng y ddwy ferch, yr hwn a ddangosid trwy eu bod yn eistedd mor bell ag y gallent oddiwrth eu gilydd ar y ffwrwm, ac wrth eu golwg ddigllawn a chuchiog, ac wrth eu geiriau a'u gweithredoedd anfwyn a diserch. Yr oedd yn amlwg i'r athraw, ac i'r holl ysgol, nad oedd dim undeb calon rhyngddynt. Yr oedd Susan yn fynych wedi ceisio gan yr athraw i newid ei sedd, gan ei bod yn teimlo yn anhappus i eistedd ar bwys Sarah, ac nis gallai ddysgu ei gwersi. Ond yr oedd wedi gwrthod gwrandaw, gan obeithio y gallai hi fod er lles i Sarah.

Un diwrnod, gadawodd Sarah ei sedd am ychydig funydau: a phan ddychwelodd cafodd ei llyfrau a'i phapurau wedi eu rhwygo a'i ingeio gymmaint fel nad oeddynt yn addas i ddim. Sarah oedd wedi gwneud hyny. Yr oedd Susan yn ddigofus iawn o'i blegid, yr oedd yn ei golwg hi yn gam rhy fawr i'w ddioddef na'i faddeu. Aeth i fyny at yr athraw, a'i llygaid yn flamio, a'i gwyneb yn goch, a phob gewyn wedi ei ystyllhau gan nwydau ylltedd. Dododd ei achwyniad i mewn yn erbyn Sarah, a lliwiodd bob peth yn y fath fodd ag i wneud tymmer ac ymddygiad Sarah i ymddangos nor ddrwg ag oedd yn alluadwy. Llosgwyd pob tosturi a serch at Sarah gan ei digofaint poeth, a'i dymuniad twymn am ddial. Gwrandawodd yr athraw yn dawel a digyffro tra'r oedd yn adrodd ei hachwyniadau, ac yn craentio tymmer ac ymddygiad Sarah, a gadawodd i'w digofaint, i raddau, i ymdreulio a marw mewn achwyniadau. Yna attebodd—

"Wel, Susan, nis gallaf lai nag addef mai Sarah yw'r ferch waethaf ei thymmer yn yr ysgol; y mae yn rhoi mwy o drafferth i mi na'r rhai ereill i gyd gyda'u gilydd, ac yr wyf yn teimlo mwy o bryder o'i phlegid hi nag blegid neb arall yn yr ysgol. Braidd y gwn i beth i wneud a hi. Beth ybygweh chwi y dylaswn wneud a hi?"

"Trowch hi allan o'r ysgol," meddai Susan.

"'Dalla' i ddim dioddef meddwl am hyny," meddai'r athraw; "canys wyddoch nad oes ganddi ddim un *fam* i edrych ar ei hol, a gwyddoch mai tyn meddw tlawd yw ei thad, ac nad yw ond yn anfynych yn cymmeryd

un sylw o honi oddieithr i'w churo a'i abuwso. Elai'n ferch golledig dlawd, 'rwy'n sicr, pe bawn yn ei throi hi allan."

"Gadewch i mi i fyned i eistedd i fan arall, yute," meddai Susan.

"Nid wyf yn gweled sut i wneud hyny," meddai'r athraw, "oherwydd y mae'r seddau i gyd yn llawn; ac os cymmeraf chwi ymaith, rhaid i mi osod rhyw ferch arall yno, a blinai a phoenai hono, feallai, fwy nag y mae yn eich blino chwi; ac ni ddymunech chwi i gael eich hunan ailan o drwbwl trwy gael rhai ereill i mewn yn eich lle."

"Yna y mae yn rhaid i mi geisio gan nhad i'm cymmeryd o'r ysgol," meddai Susan, "o herwydd 'd alla' i ddim o'i dioddef hi'n hwy."

"Ond," meddai'r athraw, "'d alla'i ddim gadael i chwi adael yr ysgol, Susan, o herwydd yr ydych chwi wedi bod yn un o'm hysgolheigion goreu. A ydych chwi'n meddwl y gwnelai'n well pe bawn yn ei chwipio o flaen yr holl ysgolheigion?"

"Ydwyf, syr," meddai Susan.

"P'odd y leicech chwi a'r holl ysgol ei gweled yn cael ei chwipio?" gofynai'r athraw.

"Leicai pob un o honom hyny," meddai Susan; "o blegid y mae'n bla i ni i gyd, ac y mae yr holl ysgolheigion yn ei chashau, 'd oes dim a fynont â hi."

"Wel," meddai'r athraw, "y mae Sarah yn wir yn ferch ystyfnig a dialgar. Yr wyf wedi meddwl llawer am dani, ac y mae'n drueni genyf am dani. Nid oes ganddi ddim un fam fwyn dyner na thad i ofalu dim am dani, a'i dysgu yn well. Gadawyd hi i redeg o amgylch i'r heolydd Y mae yn dysgu'n gyflym, a byddai'n ferch nobl, pe allai hi ond llywodraethu ei thymmer. Nis gwn i ddim beth i wneud â hi. Yr wyf wedi treio darostwng ei thymmer, ond y mae'n myned yn waeth waeth o hyd. Nis gallaf fi braidd gadw rhag wylo wrth feddwl beth ddaw o honi. Yr oeddwn wedi meddwl y gwnelai ddaioni iddi i'w gosod i eistedd ar eich pwys chwi, ond mae'n debyg ei bod hi yn gwneud mwy o niwed i chwi nag yr ydych chwi yn gwneud o les iddi hi. Yr y'ch yn dweyd fod yr holl ysgol yn ei chashau, nas gallant ei dioddef. Druan o'r ferch dlawd golledig! Rhaid i mi ei throi allan, a gadael iddi fyned!"

Nynnwyd ysbryd newydd yn Susan trwy'r sylwadau hyn. Plygodd ei phen, ac yr oedd ei llygaid yn llawn dagrau y rhai a ddechreuent dreiglo dros ei bochau.

"Susan anwyl," meddai'r athraw, "beth yw'r matter? Pam yr wylweh?"

"Yr oeddwn yn meddwl am Sarah," meddai Susan.

"Nid oes dim eisieu i chwi i lefain o'i blegid, Susan," meddai'r athraw; "ni chaiff Sarah dryblu dim rhagor arnoch. Gan nad oes neb o'r ysgolheigion yn ei charu, gan nas gallant ei dioddef, a chan nad wyf yn teimlo fel y gallwn whipio'r ferch amddifad dlawd, tröaf hi allan o'r ysgol, a gadawaf hi i fyned."

"Fe allai," meddai Susan, dan lefain, "pe byddai ganddi fam fwyn a thad yn gofalu am dani, y buasai yn well."

"Digon tebyg," meddai'r athraw; ond bu farw ei mam pan oedd hi ond baban, ac nid yw ei thad meddw braidd byth yn siarad gair mwyn wrthi, ond ei rhegi a'i churo. Ond gallwch fyned i'ch lle 'nawr, Susan, ac ni chaiff Sarah ddim o'ch blino ar ol heddyw. Caiff adael yr ysgol."

Ond ni chyffrai Susan; safai'n igian ac yn llefain.

"Pam nad ewch i'ch lle, Susan," meddai'r athraw yn dra sarug. "Pam y sefwch yna yn llefain? Dywedais wrthych na chaiff Sarah ddim aros yn yr ysgol i'ch blino."

"Nid wyf yn 'mofyn i Sarah i gael ei throi o'r ysgol," meddai Susan.

"Sut mae hyn?" meddai'r athraw. "Oni ddarfu i chwi ddymuno arnaf gyneu fach i'w throi allan? Beth sydd wedi newid eich meddwl?"

"Ni fydd ganddi neb wedi'n i'w charu, nac i ofalu dim am dani, os trowch hi allan," meddai Susan yn igianllyd.

"Ond os caiff hi aros," meddai'r athraw, "nid oes neb i'w charu, nac i hidio dim am dani; o blegid dywedsoch eich bod oll yn ei chashau, ac nas gallsech ei dioddef."

"Yr oeddwn yn ei chashau y pryd hwnw," meddai Susan, "modd y rhwygodd ac yr ingciodd fy llyfrau, ac y gwnaeth gymmaint ag a allai i'm blino."

"Podd nad ydych yn ei chashau yn awr?" gofynai'r athraw.

"Am fy mod yn meddwl," attebai Susan, "beth ddaw o honi."

"Susan," meddai'r athraw, "y mae Sarah wedi gwneud cam mawr â chwi. Ond wrth eich trin chwi felly, pwy dybygwch chwi y mae yn niweidio fwyaf —ei hunan neu chwi?"

"Ei hunan," oedd yr atteb.

"Eithaf gwir," meddai'r athraw. "Pan y mae yn digio, yn eich pinsio chwi, ac yn eich taro, yn rhwygo ac yn ingcio eich llyfrau, neu yn eich niweidio yn unrhyw fodd, *y mae yn wastad yn gwneud niwed tostach a mwy parhaol iddi ei hunan nag i chwi.* Y mae yn rhoddi nerth i'w thymmer ddrwg ei hunan, yn peri i bob un ei chashau ac i gadw oddi wrthi, ac yn parotoi iddi ei hunan dristwch a gofid. Y mae'n druenus meddwl beth fydd ei diwedd os â yn y blaen yn y llwybr yma. Ond yr ydych yn dywedyd nad y'ch yn dymuno arnaf ei throi allan o'r ysgol. Yr oeddych am i mi ei chwipio yng ngwydd yr holl ysgol, a dywedasoch yr hoffech weled hyny. A gaf fi wneud hyny ynte?"

"Na chewch, syr," meddai hi.

"Pam?" meddai'r athraw.

"Fe allai," meddai Susan, "na wnaiff hi ddim felly byth etto, ac y mae yn ferch fach dlawd amddifad, heb fam ac heb gyfaill."

"Wel, y mae yn rhaid i mi wneud rhyw beth iddi," meddai'r athraw. "Y mae'n haeddu cosp. Am hyny gellwch fyned i'ch sedd, a dywedwch wrth Sarah am ddod yma."

"*Peidiwch a'i chospi*," meddai Susan, yn hollol analluog i lywodraethu ei hunan.

"Susan anwyl," meddai'r athraw, "y mae hyn yn rhyfedd. Braidd y gwn i beth i wneud o hono. Yr wyf bob amser wedi caru ac wedi tosturio wrth Sarah fy hunan, a gwneud pob peth a allaswn i'w helpu. Y mae'n wastad wedi bod yn anwyl iawn genyf, canys gwyddwn nad oedd ganddi un fam, a bod ei thad meddw yn ymddwyn yn giaidd iawn bob amser tu ag ati; a gwyddwn eich bod chwi i gyd yn ei chashau hi, nis gallswn braidd gadw heb ymylo wrth glywed beth a wnaeth i chwi; ac wrth glywed y byddai'r holl ysgol yn falch i'w gweled yn cael ei chospi a'i throi allan. Ond yn awr, pan yr wyf yn barod i'w throi allan neu i'w chospi, yr ydych yn ceisio genyf i niweidio. 'Nawr dywedwch wrthyf beth a gaf wneud, a gwnaf fel y dywedwch."

"Nid wyf fi am i ddim gael ei wneud iddi."

"Wel, gallwch gymmeryd eich pethau a myned i sedd arall," meddai'r athraw. "Nis gallwch ddymuno eistedd yn hwy gyda hi."

Yr oedd yr ymddiddan wedi myned yn boenus i Susan. Gorchfygwyd hi yn lan. Begianodd am gael myned etto i eistedd ar bwys Sarah.

"O gadewch iddi eistedd gyda mi," meddai hi.

"Wel, Susan anwyl," meddai'r athraw, "pe buasech ond caru Sarah yn unig, a pheidio digio wrthi pan y byddo hi yn gwneud niwed i chwi, a threio ei helpu i orchfygu ei thymmer ddrwg, a'i ffyrdd trwsgl a drwg, leiciwn uwch law pob peth i gael gyda chwi i eistedd yno; oblegid y mae'n sicr o fod yn ferch golledig os na wneir rhywbeth drosti. A ydych chwi yn tybied y gellwch ei charu, ac anghofio yr oll sydd wedi pasio, a gwneud daioni iddi hi beth bynag wnelo hi â chwi?"

"Treiaf, os caniatewch i mi eistedd gyda hi," meddai Susan.

"Wel, gellwch dreio am ychydig ddyddiau yn hwy," meddai'r athraw.

Aeth Susan i'w heisteddle wedi ei gorchfygu yn llwyr. Yr oedd ei digofaint a'i dialedd wedi myned i gyd. Yr oedd wedi anghofio ac wedi maddeu y niwed a wnaeth Sarah iddi, a meddyliai yn unig am y drwg yr oedd hi'n gwneud iddi ei hunan, a'r trueni oedd hi'n ddwyn arni ei hunan, ac am ei chyflwr digyfeillach ac alltudaidd. Yr oedd wedi colli golwg arni ei hunan, ac ar y cam a ddioddefodd, a meddyliai am Sarah yn unig. Cymmerodd ei sedd, eisteddodd yn glos ar bwys Sarah, gosododd ei breichiau o gylch ei gwddf, pwysodd ei phen ar ei hysgwyddau ac wylodd! Yr oedd Sarah druan yn hollol ammharod i hyn. Yr oedd serch a chydymdeimlad Susan wedi cyffro y tant iawn yn ei chalon. Gallasai ymbalfalarneiddio yn erbyn digofaint a fflangellau a phob math o anfwyndra, ond id oedd ganddi ddim ynddi i wrthsefyll y cyfryw serch cariadus. Dychwelodd y cydymdeimlad, ac o flaen yr holl ysgol; yr oedd y ddwy ferch, gynneu fach mor ddig y naill wrth y llall, yn awr yn wylo ym mreichiau eu gilydd. Gwnaeth Sarah a allai i wneud i fyny golled Susan. Nid oedd y ddwy ferch mwy yn eistedd ar ddau pen y fforwm. Daeth eu *calonau* at eu gilydd, ac fe dynerodd hyny eu *cyrph* at eu gilydd. Nis gellid dweyd yn hwy nad oedd gan Sarah neb i'w charu, neb i ofalu am dani. Yr oedd Susan yn ei charu, yn gofalu am dani. Dechreuodd yr holl ysgol ei charu, i ofalu am dani. Fel yr oedd ereill yn ei charu hi, yr oedd hithau yn eu caru hwy. Dechreuodd teimladau ei chalon, gwresogrwydd ei serchiadau, a holl yni ei chymmeriad i gael eu dadblygu, a daeth yn un o'r ysgolheigion goreu yn yr ysgol.

Felly daeth Susan i garu ei gelyn, *trwy feddwl mwy am dani nag am ei hunan.* Tra'r oedd ei meddwl ar y niwed a wnaed iddi gan Sarah, yr oedd yn llawn digofaint a malais, ac yn awyddus am iddi gael ei chospi; ond y foment yr anghofiodd ei hunan, a'r niwed a dderbyniodd, ac y dechreuodd feddwl am Sarah ac am ei thymmer aflywodraethus a dialgar, ac am y niwed oedd yn gwneud iddi ei hunan wrth borthi y dymmer hono, ac am ei chyflwr gwael, aeth pob rhith digter ymaith, cafodd cariad a maddeugarwch le yn ei chalon, ac wedi hyny yr oedd yn well ganddi gymmeryd ei chospi ei hunan na gweled Sarah yn cael ei chospi.

Y mae digter yn wastad yn ysgaru plant oddiwrth eu gilydd, ac yn eu cadw ar wahân, ac yn peri iddynt lygadu eu gilydd yn gas ac yn ddialus, ac nid yw byth yn eu tynu yng nghyd oddieithr i ymladd ac i niweidio'r naill y llall. Ond y mae cariad yn tynu plant at eu gilydd, hyd yn oed i freichiau

eu gilydd, ac ni chaniatâ iddynt gadw ar wahân. Pan fyddo plant yn cashau eu gilydd, y mae'n hawdd ddigon eu cadw ar wahân; ond os byddant yn caru'r naill y llall deuant at eu gilydd. Nis gall na gwres nac oerfel, na storom na thesogrwydd, na dim arall gadw plant ar wahân a fyddont yn caru eu gilydd.

K. F. B.

Gohebiaethau.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.

Cynaliwyd Cyfarfod Cystadleuol gan Ysgol Sul y lle uchod, dydd Llun, Tachwedd 28ain, 1864. Dechreuwyd y cyfarfod cyntaf am haner awr wedi tri o'r gloch, pryd y cynygiwyd gan Mr. Jenkin William, ac eiliwyd gan Mr. David Davies, fod Mr. Edmund D. Howells, Arolygydd yr Ysgol, i gymeryd y gadair lywyddol; ar ol iddo agor y cyfarfod drwy araeth fer, dlos, a phwrpasol, aethpwyd ymlaen â'r cyfarfod yn y drefn ganlynol:—

1. Cystadleuaeth adrodd 'Anerchiad i Gyfarfod Cystadleuol,' i fab neu ferch dan 16 oed, dau yn cystadlu; buddugol, Catherine Watkins.

2. Canu 'Clychau Aberdyfi,' i ferched dan 16 oed, dwy yn cystadlu; barnwyd Ann Thomas yn fuddugol

3. Beirniadaeth Eiddil Cynon, a Cynonwyson ar y Penillion ar 'Ymddygiad da;' derbyniwyd tri cyfansoddiad; buddugol, Un wedi enill o'r blaen, sef, yr ysgrifenydd.

4. Canu Catch 'Am iechyd da,' cyfyngedig i fechgyn dan 10 oed, un parti yn cynyg, a chafodd y wobr, sef Wm. Davies a'i gyfeillion

5. Beirniadaeth Cynonwyson ar ysgrifenyddiaeth y ganfed Salm, i fechgyn dan 15 oed, 7 yn cynyg, a barnwyd David Jones yn fuddugol.

6. Darllen Seisoneg, i ferched dan 16 oed, 2 yn cystadlu, a chafodd Catherine Watkins y wobr.

7 Canu y dôn 'Cynon,' 2 barti yn cynyg; buddugol, Hugh Thomas a'i gyfeillion.

8. Beirniadaeth Mrs. R. Jones ar *Crochet Work*, un yn cynyg ac yn deilwng o'r wobr, sef Elizabeth Griffiths

9. Beirniadaeth y Traethawd ar y Dyn Pwyllog,' cyfyngedig i rai na fu yn fuddugol ar Draethawd neu Farddoniaeth o'r blaen; daeth tri cyfansoddiad i mewn barnwyd eiddo Mr. Thos. D. Howells yn fuddugol.

10. Chwarae 'Rosseau's Dream' ar y concertina, i fechgyn dan 15 oed, 2 yn cynyg am y dorch; buddugol, Rees Price, a rhoddwyd llyfr yn ail wobr i'r un arall, sef Hugh Thomas.

11. Adrodd 'Addysg i'r Ieuainc,' i fab neu ferch dan 16 oed; 2 yn cystadlu, buddugol, William Rees.

12. Cafwyd tôn gan y Gobeithlu.

13. Canu 'I dref y Bala aeth y bardd,' i fechgyn dan 16 oed; 4 yn cystadlu, rhanwyd y wobr rhwng Hugh Thomas a John Jenkins; rhoddodd Mr. T. D. Williams swllt i'r un lleiaf, sef William Davies, crotyn 7 mlwydd oed. Wedi hyn cynygiwyd yn

	s.	c.
1. I'r ddau a ddarllen gerddoriaeth oreu ar y pryd	2	0
2. I'r ysgrifenwr cerddoriaeth cywiraf ar y pryd	1	0
3. Am yr englyn goreu i'r Llywydd (Y Carw Coch i fod yn Feirniad.)	1	0
4. I'r sillebwr Seisoneg goreu dan 10 mlwydd oed	1	0

Yr enwau a'r englyn i fod mewn llaw erbyn dechreu y cyfarfod hwyrol. Yna canwyd 'Anthem' Tywysog Cymru' i ddarfod y cyfarfod cyntaf.

Cyfarfod haner awr wedi chwech.

Cynygiwyd gan Mr. Thomas Rees, ac eiliwyd gan Eiddil Cynon, fod Mr. Evan Howells i gymeryd y gadair; wedi iddo agor y cyfarfod yn y modd arferol, galwodd ar y beirdd i ddyfod yn mlaen a'u hanerchiadau, yr hyn a wnaed gan Eiddil Cynon, Carw Coch, a Dewi Iago. Yn nesaf beirniadaeth y Carw Coch ar yr englyn i'r Llywydd; daeth 4 i mewn a barnwyd eiddo yr ysgrifenydd yn fuddugol, yr hyn sydd fel y canlyn:—

Y llywydd sydd wr galluog,—medrus,
A'i 'madrodd sydd fywiog;
Yn hynaws gwna ein hanog—er ein bri,
I wych oleuni'n ddewr a chalonog.

2. Araeth ddifyfyr, dim dros pum munyd o amser, 6 yn cystadlu, a'r goreu oedd Mr. Evan Evans.

3. Canu y dôn 'Gwawr,' un parti ddaeth yn mlaen, a chawsant y wobr, sef Hugh Thomas a'i gyfeillion.

4. Darllen Cymraeg, i fechgyn dan 16 oed; 5 yn cystadlu, rhanwyd y wobr rhwng Richard Jenkins a David Rees.

5. Ysgrifenvddiaeth y Salm flaenaf, i ferched dan 15 oed; 2 yn cynyg, a rhanwyd y wobr rhwng Margaret Jones ac Elizabeth Griffiths.

6. Canu y rhan gyntaf o 'Hark! The Goddess Diana,' un parti yn cynyg, a chawsant y wobr, sef Joan Howells ac Anne Thomas.

7. Beirniadaeth ar yr englynion i Mr. T. D. Williams, am ei ymdrech yn mhlaid y Gobeithlu; dau gyfansoddiad ddaeth i mewn, a barnwyd eiddo yr ysgrifenydd yn fuddugol. Wele hwynt:—

Da yw cerdd ein Tomos Dawkin—Williams,
Gwr welir yn ymdrin
A'r plant, cant fwyniant o'i fin,
Ag odlau chweg a dilin.

Arweinydd, llywydd i'r llu,—yw'r gwron,
Gwir gâr i'r Gobeithlu;
Yn ddwysgall gwna'u haddysgu,
Dan y gerdd dafod yn gu.

8. Adrodd 'Bwthyn fy mam,' i ferched dan 16 oed, un yn cynyg, a chafodd y wobr, sef Gwenllian Llewelyn.

9. Ysgrifenu tôn ar y pryd, 3 yn cynyg rhanwyd y wobr rhwng Mr. John Thomas a Mr. Richard Morris.

10. Adroddodd Jane Llewelyn ddau benill, un i Gwr o Fforest Llwydcoed, a'r llall i Deiau Aberdâr, &c., a chafodd wobr gan Mrs. Jones am ei llafur.

11. Canu 'Yr Eos,' 5 parti yn cynyg am y dorch, rhanwyd y wobr rhwng y tri parti blaenaf.

12. Beirniadaeth Mr. D. J. Jones ar lun y gadair; daeth 21 i mewn, y goreu oedd eiddo Rees Price.

13. Darllen Cerddoriaeth ar y pryd, 3 pharti yn cynyg, rhanwyd y wobr rhwng Thos. D. Howells a'i gyfaill a Richard Morris a'i gyfaill.

14. Adroddodd Eiddil Cynon benillion o'i eiddo i'r Gobeithlu.

15. Canu Marwnad er cof am y Parch. Thomas Evans; 2 ymgeisydd, a rhanwyd y wobr rhyngddynt, sef Thos. D. Howells a Thomas Thomas.

16. Ysgrifenu Seisoneg cywiraf ar y pryd, i fab neu ferch dan 15 oed, 6 yn cynyg, goreu Joshua Jones a Joseph Jenkins.

17. Canu solo tenor 'Seren Bethlehem,' 3 ymgeisydd; barnwyd T. D. Howells a Thos. Thomas yn cyd-fuddugol.

18. Sillebu Seisoneg, i fechgyn dan 10 mlwydd oed, 9 yn cynyg, goreu, David Jenkins.

19. Canu 'Glan meddwdod mwyn,' gan y Gobeithlu, a chawsant bymtheg swllt a chwe' cheiniog am eu llafur yn ystod y cyfarfod.

Ar ol talu diolchgarwch i'r gwahanol feirniaid, y llywyddion, ac eraill a fu yn gweini ar yr achlysur, terfynwyd y cyfarfod drwy ganu 'Anthem Tywysog Cymru,' ac yr oedd pawb yn ymadael fel pe wedi eu llwyr foddloni, ac yn awyddu am gael cyfarfod cyffelyb eto yn fuan. Yr oedd y ddau gyfarfod yn bur luosog.

DAVID JAMES (Dewi Iago),
Ysgrifenydd.

O.Y.—Beirniad y Canu oedd Mr. Rees Howells, a'r Adroddiadau Mr. T. J. Jones, Cynonwyson. D. J.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YNG NGHYMRU.

	£	s.	d.
Hysbyswyd eisoes	53	19	8
Yn cynhwys cyfraniadau oddiwrth			
Mr. T. Jones, Penrhiw	0	2	6
Llwynrhydowen (additional)	0	3	0
Pantteg (additional)	0	1	6
Mr. T. Stephens, Merthyr	1	0	0
— W. Williams, Carw Coch	0	10	0

Pa rai a gydnabyddwyd ar amlen Rhifyn Hydref.

Caeronnen, Cellau.

Parch. D. Evans	0	10	0
Mr. J. Jones, Lanlas	0	10	0
— W. Davies, cooper	0	2	6
— J. Davies, Felindre	0	10	0
— W. Davies, Trebanau	1	0	0
— W. Davies, Efelfach	0	2	6
— — Davies, Coedmorfach	0	2	6
Mrs. J. Thomas, Pwllcrych	0	1	6
Mr. W. Davies, Lanlas	0	7	0
— J. Davies, Hendai	0	4	0
— J. Evans, Sunhill	0	2	0
— Evan David, Llain	0	2	6
Mrs. Gwenllian Davies, Llain	0	1	0
Mr. Anthony Evans, Tyhywel	0	1	6
Mrs. Sarah Davies, Lock & Key	0	2	0

	£	s.	d.
Mr. J. Williams, Llainau ..	0	3	0
— D. Jones, Gwastod.....	0	2	0
— D. Evans, Tymawr... ..	0	2	6
— D. Davies, Llwynifan ..	0	2	6
— J. Davies, Rhydderchlwyd	0	3	0
Mrs. H. Williams, Trebanau	0	1	0
Mr. T. Davies, Fardrefach..	0	5	0
— J. Lewis, Tyddywdu	0	5	0
— Evan Jones, Ram	0	2	6
— D. Jones, Pontbrendu ..	0	1	0
Mrs. M. Jones, Pantyffynnon	0	1	0
— Mary Jenkins, Tynewydd	0	0	6
Mr. D. Davies, Esgerddu ..	0	2	6
— Herbert Jones, Ram	0	3	0
Miss Hannah Jones, Ram .	0	1	0
Mr. Rees Davies, Cwmbedw	0	2	0
— Timothy Davies, Capeli ..	0	2	6
Mrs. Walters	0	5	0
Mr. E. Davies, Pentresion	0	5	0
Mrs. Margaret Davies, Caerau	0	1	6
— Mary Lloyd	0	0	6
Mr Samuel Davies, Coedpert	0	1	0
— Thos. Evans, Troedyrhiw	0	1	6
	6	13	0

Rhydyywin.

Mrs. Mary James, Felinfach	0	1	0
— Rachel Jones, Cwm	0	0	6
Mr J Hughes, Ty'nygwndwn	0	2	6
Mr Walter Jenkins, Glanwern	0	2	6
— Thomas Jenkins, ,,	0	2	6
— John Davies, Tanygraig..	0	2	6
— John Evans, Cwmere ...	0	2	6
— D. Davies, miller, Felinfach	0	2	0
— Peter Davies, Lloydjack..	0	2	6
— John Jones, Drewynt ...	0	2	6
— Thomas Howels, carpenter	0	2	0
— John Jenkins, Penbryn..	0	2	0
— Thomas Davies, Talyfan	0	2	6
— Dl Jenkins, Felindre uchaf	0	2	6
— Jenkin Jenkins, mason..	0	2	0
— David Jones, Penbwlch .	0	2	6
Mrs. M. Jones, Ty'nygwndwn	0	0	6
Mr. D. Davies, weaver, Dolbwba	0	2	6
— Stephen Charles	0	1	0
	1	18	6

Ciliau.

Mr. Jenkin Evans, Tynant..	1	0	0
— Evan Lloyd, Plasbach ..	0	2	6
— Rees Jones, Doleu	0	2	6
— John Jones, Neuadd-ddu	0	2	6
— Thomas Evans, Tynant ..	0	2	6
— David Davies, Feinog....	0	2	6
Capt. Davies, Aurora	0	2	6
	1	15	0
	£64	6	2

CYFARFOD CWARTEROL NADOLIG.

Cynaliwyd y cyfarfod uchod ar yr 28 a'r 29ain o'r mis diweddaf yn y Wig, ger Penybont.

Prydnawn dydd Mercher, am 6 o'r gloch, dechreuwyd y cwrdd gan y Parch. David Beynon, St. Clears, a phregethodd y Parchn. John Davies, Alltyblacca, oddiar Phil. iii. 13, 14; a R. J. Jones, A.C., oddiar Ioan iii. 13. Am 11 o'r gloch boreu dydd Iau, dechreuwyd gwaith y dydd trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. Wm. Rees, Rhydygwin, a thraddodwyd pregeth Seisneg gan y Parch. J. B Lloyd, Sidmouth, ac ar ei ol pregethodd y Parch. O. Evans, Cefncoedycymmer, oddiwrth y geiriau a ganlyn, "Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i? Am na ellwch wrando fy ymadrodd i?"—Ioan viii. 43. Yr ydym yn deall i fod pregeth Mr E. i ymddangos yn yr Ymofynydd mor gynted ag y gellir. Wedi i'r gwr uchod orphen ei waith, etholwyd gweinidog y lle, y Parch. Titus Lloyd, i'r gadair lywyddol; penderfynwyd i fod Cyfarfod Cwarterol y Pasc i gael ei gynal yn Alltyblacca, a bod Mr. R. J. Jones i bregethu y bregeth, ac wedi i'r Parch. J. E. Jones ddiweddu y cyfarfod, gohiriwyd y gynadledd hyd dri o'r gloch yn y prydnawn, pryd y llefarwyd yn bur helaeth ar y pwnc penodedig, sef, "Beth sydd i'w feddwl wrth y geiriau 'Fod Duw wedi caledi calon Pharaoh,'" gan y Parchn. D. Beynon, O. Evans, T. Thomas, a J. Evans. Yr oedd y rhan fwyaf o'r llefarwyr yn barnu y buasai meddwl y geiriau yn fwy dealladwy i ni yn yr oes hon pe buasent yn cael eu cyfieithu fel hyn, sef, "Duw a ddioddefodd i galon Pharaoh i gael ei chaledi."

Yn y prydnawn drachefn, am haner awr wedi pump o'r gloch, dechreuwyd y cyfarfod gan Mr. Rees Jones, Mvfyriwr, a phregethodd y Parchn. John Evans a T. Thomas. Yr oedd Capel y Wig yn orlawn o wrandawyr pur astud trwy y cyfarfodydd oll. Wrth gwrs ni chafodd pawb eu boddloni yn y pregethau a draddodwyd gan y gwahanol bregethwyr, yr hyn nis gallasem yn rhesymol ddisgwyl, a hyny am ein bod yn gwybod am amrywiol o gyfeillion Cristnogol ag oedd yn credu yn wahanol iawn i ni mewn perthynas i rai o bynciau y grefydd Gristnogol.

L.

Hanesion Gartrefol a Thramor.

Y Cyllid.—Dydd Llun, Ionawr 2, cyhoeddwyd cyfrifon am y flwyddyn a'r chwarter oedd yn diweddu ar y 31ain o Ragfyr diweddaf Cyfanswm y cyllid am y flwyddyn ydyw, £70,125,374, yn erbyn £70,433,620 yn y flwyddyn flaenorol; yr hyn a ddengys leihad o £308,246 Cymmerodd lleihad o £1,807,000 le yn nhreth meddiannau, a lleihad o £886,000 yn y *customs*, ac y mae y lleihad yn y naill a'r llall i'w priodoli yn gwbl i ostyngiad trethi. Dengys pob ffynnonell arall o gyllid gynnydd,—yr *excise* ddim llai na £1,598,000. Y cyllid am y chwarter oedd yn diweddu ar yr 31ain o Ragfyr diweddaf oedd £11,069,596, yr hyn oedd yn lleihad o £248,570 ar y chwarter cyferbyniol yn y flwyddyn flaenorol Fe welir oddiwrth y ffigrau uchod fod ein cyllid mewn sefyllfa hynod o foddhaol.

Y Gymdeithas Newydd.—Y mae y gymdeithas a gychwynwyd yn ddiweddar er ffurfio undeb rhwng Eglwysi Groeg, Rhufain, a Lloegr, yn cael mwy o getnogaeth nag a ddisgwyliai hyd yn oed ei chefnogwyr gwresocaf. Nid ydyw nifer presennol ei haelodau ddim llai na 7,000, ac yn eu plith y mae nifer nid bychan o glerigwyr Eglwys Loegr. Ymddengys oddiwrth bapurau swyddol y gymdeithas nid yn unig fod ei hegwyddorion yn sawru yn gryf o Babyddiaeth, ond mai ei phrif amcan ydyw cefnogi Pabyddiaeth yn Eglwys Loegr. Y mae yr aelodau clerigol yn ymrwymo i "offrymu yr Aberth Sanctaidd dros yr Undeb o leiaf unwaith bob tri mis," ac y mae'r aelodau ereill i adrodd ffurfweddi neillduol bob dydd dros yr un amcan. Dywedir fod y Pab wedi cyhoeddi ei fendith ar y gymdeithas, gan ddadgan fod yn dda ganddo glywed fod egwyddorion y grefydd Babaidd yn cynnyddu mor gyflym yn Eglwys Loegr! Pa gyssondeb a all fod rhwng Crist a Belial?

Cylchlythyr y Pab.—Y mae Pio Nono newydd gyhoeddi cylchlythyr ag sydd o ran ei haerllugrwydd a'i ryfyg yn taflu ei holl lythyrau a'i areithiau blaenorol i'r cysgod. Gellir casglu oddiwrth ei iaith ei fod yn teimlo fod dyddiau y Babaeth wedi eu rhifo; ac yn ei ffyrnigrwydd y mae yn "chwythu bygythion" yn erbyn pawb a phob peth. Y mae yn condemnio rhyddid, gwybodaeth, gwareiddiad, diwygiadau gwladol ac eglwysig, a phob peth sydd yn wrthwyneb i'r Eglwys Babaidd.

America.—Derbyniwyd dau newydd pwysig o America yn ddiweddar—un ydyw fod Sherman wedi cyrhaedd i gymmydogaeth Savannah, ac wedi llwyddo i ffurfio cymmundeb â'r llynges Undebol yn Beaufort; a'r llall ydyw, fod byddin Hood wedi ei llwyr orchfygu gan y Cadfridog Thomas. Ar y 14eg, cymmerodd Sherman feddiant o Amddiffynfa M'Allister, yr hon sydd yn sefyll ar yr Ossibaw Sound, trwy yr hyn y galluogwyd ef i ffurfio cymmundeb â'r llynges Undebol yn Beaufort, ac i attal cymmundeb Savannah. Addefa newyddiaduron Richmond fod Savannah yn rhwym o syrthio i ddwylaw yr Undebwyr. Tybid yn Washington y byddai i Sherman, ar ol cymmeryd Savannah, wneyd y ddinas hono yn safle ei weithrediadau yn y ddwy Carolina, ac nad ymgymmerai byddin Grant âg un symmudiad o bwys yn ystod y chwe mis nesaf. Ond y farn gyffredinol yw, mai y peth cyntaf a wna ar ol ei chymmeryd fydd anfon gwnfadau ar hyd yr afon Savannah i ymosod ar Augusta, yr hon sydd yn gorwedd ar lan yr afon hono. Ar y 15fed a'r 16eg o Ragfyr, ymladdodd y Gadfridog Thomas frwydr fawr â byddin Hood o fiaen Nashville, gan ei llwyr orchfygu a chymmeryd 5 mil o garcharorion a 60 o fagnelau; ac yn ol y newyddion diweddaf, yr oedd Hood yn encilio yn brysur ac yn cael ei erlid yn galed gan yr Undebwyr; a thybid ei fod yn bwriadu croesi yr afon Tennessee yn Florence o dan amddiffyniad ei wŷr meirch. Ni wyddid yn sicr i ba le yr oedd rhyfelgyrch y Llyngesydd Porter a'r Cadfridog Butler yn myned; ond tybid yn gyffredinol mai i ymosod ar Wilmington ar yr un amser ag yr ymosodai Sherman ar Savannah. Yr oedd y Llywydd Lincoln wedi gorchymyn drafftio 300,000 o wyr i lanw y diffygion yn myddinoedd yr Undeb.

Bu farw—

Dydd Iau, Tachwedd 3ydd, 1864, ar ol hir gystudd, yn 61 oed, John Price, crydd, Cwmdar, ger Aberdar. Dioddefodd yr ymadawedig ei gystudd hir a phoenus yn hynod o dawel ac amyneddgar; ystyriai yn wastad fod y cyfan a dderbyniai o law ei Dad "yn elw a sail o ryw leshad" Yr oedd bob amser yn gymydog tawel, serchog, a chymwynasgar; perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd fel dyn gweithgar yn meddu ar radd helaeth o wybodaeth, ac yn hynod o gelfyddydgar gyda phob peth yr ymaflai ei law ynddo; yr oedd yn ddarllenwr ac yn dderbyniwr cyson o'r YMOFYNYDD oddiar ei gychwyniad cyntaf, ac hefyd yn un o'i ddosbarthwyr. Gadawodd weddw a llawer o berthynasau i alaru ar ei ol. Dydd Sul canlynol daeth tyrfa luosog o bell ac agos yng nghyd i'w angladd; pregethwyd yn y tŷ cyn cychwyn yn hynod o effeithiol a phwrpasol ar yr achlysur gan y Parch. Rees J. Jones, A.C., oddiwrth y geiriau—"Gwell yw myned i dŷ galar, na myned i dŷ gwledd," Pregethwr vii. 2; yna yr hebryngwyd ei gorff i orwedd i fonwent eglwys plwyf Penderyn, lle yr erys hyd ganiad yr udgorn yn y dydd diweddaf. pryd y "daw allan y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn." "Heddwch i'w lwch."

Trecynon. DEWI IAGO.

Tach. 14eg, yn 5 mlwydd oed, Joannna, merch T. a A Mathews o'r Notais, ac ŵyr i'r Parch. T. Lloyd, Yn ei hangladd, y dydd Mawrth canlynol, pregethwyd i dyrfa luosog oddiwrth i Sam iii 18, y rhan olaf.

Barddoniaeth.

CAN O GLOD I H. N. DAVIES, YSW., MEDDYG, CYMER, ger PONTYPRIDD.

Arferir yn wastad yn mhob oes a gwlad,
Orgammol rhyfelwyr, blaenorwyr y gad;
Ond yma cammolwn ein meddyg tra mwyn,
Dyrchafwn ei glod dros bob twyn.
Clod, clod, teilynga uchel glod;
Tra da'er a dwr yn siwr a'i si,
O bydded ei enw mewn bri.

Henry Naunton Davies, Yswain, ydyw ef,
Ei enw dyrchafwn mor uchel a'r nef;
Pob Cymro rhinweddol o unwn heb sen,
I roddi ein clod ar ei ben.
Clod, clod, &c.

Pe weinia i'r gweiniaid heb rwgnach un pryd,
Arwyddeir ein meddyg yw llesiant y byd;
Rhinweddau ddylifant o'i fynwes fel dw'r,
Fwy, pwy na chamolai y gwr?
Clod, clod, &c.

Cyfrydwaith yw canu pennillion o glod,
Gunrhyw wladgarwr lle bynag mae'n bod;
Ond llawer melusach ein clodydd i un,
I o'n drwyadl Gymro ei hun.
Clod, clod, &c.

Coff Gymro diweniaeth yw'n Davies heb sen,
Mae'n caru preswylwyr yr hen Ynys Wen;
Weithredoedd ei fywyd ddangosant bob pryd,
Serch at hen Gymru o hyd.
Clod, clod, &c.

Pwy rydd ogoniant i'n meddyg tra mâd,
Mwy o anrhydedd na chalon ei wlad;
Cymmoliaeth pob graddau mewn geiriau tra llon,
Ild well na thlws aur ar ei fron.
Clod, clod, &c.

Ar ol iddo farw gobeithio mewn hedd;
Ni raid wrth gof-adail yn ymyl ei fedd;
Waith cerfiodd yn ddiau ei enw yn fad,
Ar lechau calonau ei wlad.
Clod, clod, &c.

W. THOMAS.

Ty'ncwarra, Ynysbwl,
ger Pontypridd.

ENGLYNION AR ENEDIGAETH CRIST.

MEL enaid yw moliannu—ein Duw hael;
Mae'n deilwng o'i garu:
O'i ewyllys a'i allu
A'i ras cawd yr Iesu cu.

Ha! fe ddaeth anwylaf ddydd;—dydd o gân
Dydd geni Gwaredydd,
I'n dwyn, er ein dywenydd,
O'n loesau a'n rhwymau'n rhydd.

Enbydus anwybodaeth—a chaddug
Orchuddiai bob talaeth;
Ond heulwen ddien a ddaeth
I'r golwg o'i hargeliaeth.

'Nawr y gwelir drwy ei golau—tanbaid
Tywynbost yr oesau;
Yn nod i ddwyn eneidiau
I ffordd y Gwir o ffyrdd Gau.

I Bethle'm rhown drem am dro;—wele fan
Eilw fyrdd i'w gofio;
Rhyw anwyl le geir yno,
A ddena frwd ddawn y fro.

Bu'r baban egwan ei agwedd,—a delw
Dihalog y Mawredd

A'n Por hael yn wael ei wedd,
Ow, mewn gwair yma'n gorwedd!

Tyloty, gwely o'r gwaelaf—a gadd,
A gwisg o'r ddystadlaf;
Ai Unig-anedig Naf
Oedd, y gwirion hawddgaraf!

Ar ol ei seren rhyw lu siriawl—ddaeth
O ddoethion dwyreiniawl,
A'u rhoddion mwynion, a'u mawl
Gwresog i'r baban grasawl.

A ger y lle yn gor llon—wele deg
Loyw dorf o angylion,
Yn canu uwch acenion
Wrth gadw yr wyl anwyl hon.

Pwy draetha faint, braint a bri—y ddwyfron
Ddifrad fu'n ei borthi?
Mae mawredd mwy i Mari,
Bythol oes fydd ei hoes hi.

Ha! cawsom er ein cysur—wiw Geidwad
I godi pechadur:
Etifedd Nen, ein Pen pur,
Rydd eli ar ei ddolur.

Ganwyd Cenhad rhad ein Rhi,—do gwiriwyd
Geiriau y proffwydi:
Sain can yn lle swn cyni
Dery'nawr drwy'n daear ni.

O fawryddig foreuddydd,—i ymlid
Nos amlwg coelgrefydd,
Ac i agor dor y dydd
I eneidiau annedwydd.

Nis gellir iawn, lawn ddarlunio—y llwydd
A'r lles a ddaeth trwyddaw:
Ol ei nerthol, lesol law,
A'i gariad gânt eu gwiriaw.

Caethion yn rhyddion a roddwyd—yn awr,
Y noeth a ddilladwyd,
A thylodion, llymion llwyd,
Ddeugeiniau a ddigonwyd.

Daeth y dall heb ball bellach—i weled,
A'i olwg yn holliach;
A'r byddar sydd ddedwyddach
Ei galon 'nawr, â'i glyw'n iach.

Mae'r cloff heb nam yn llamu—'i oreu mwy,
A'r mud yn llefaru.
O'i haelder cadd llawer llu
O feirwon eu hadferu.

Bydd cannoedd, miloedd yn moli—'n uchel
O achos ei eni,
Mewn trag'wyddol, freinniol fri,
Ar làn y pur oleuni.

Cribyn D. Thomas, (Dewi Hefin.)

ENGLYNION

er cof am y diweddar Barchedig John James, Gellionen.

Rhyw niwlen ddu ddu a ddaeth—yr awrhon
Ar oror Undodiaeth:
Seren oleu, oreu aeth
O'r golwg i argeliaeth.

Llyw enwog Gellionen—i lawer
Oedd lewyrch diamgen;
Fe yrai draw yn llawen
Y du niwl a doai'n nen.

Ein hen dad. Ow! nid ydyw;—mewn gweryd
Mae'n gwron diledryw:
Ein Paul oedd—Pa le heddyw
Mae un o'i fath mwy yn fyw?

Y Gwir yn ei liwiau gorau—a gaem
Yn ei goeth bregethau;
Ond llu o hyll gestyll Gau
Tan ei ddwrn aent yn ddarnau.

Safodd, er dig erlidigaeth,—yn hy
Dros ei hoff athrawiaeth;
A hon fu ei hoen a'i faeth
Ar wely oer marwolaeth.

Wedi dwthwn diwyd o weithio—John
James aeth i orphwyso;
Ond o oerllyd gryd y gro
E ddaw Ion i'w ddihuno.

Cribyn. Dewi Hefin.

Y GAUAF.

Gauaf sy'n lladd y gwiail,
A dug o goedydd y dail;
A'i chwithig wynt yn chwythu
A'i ruad arth a'i rew du.

Eira gwyn yn oeri gwedd,
A'r lluwch yn cuddio'r llechwedd;
Pob lle 'n oer, pob llwyn yn wyn,
A diffrwd fydd y dyffryn;
Clo ar ddwfr (nid claear ddydd)
A durew hyd daearydd.

D. ab Gwilym.

DAU ENGLYN I YSGRIFENYDD FFYDDLON CYFRINFA.

Un doethwych a lles cymdeithas—ydyw
Cofnodydd cyfaddas,
Eon yw, ag uniawn was,
Manol i wneud cymwynas.

Un o sêl, ac yn ei swydd—un eithaf
Am wneuthur onestrwydd,
Eneidiol fydd ei nodwydd,
O wir les, a mawr ei lwydd.

Aberdar. Eiddil Cynon.